# ECO'R WYDDFA

RHIF 26 MAI 1978 Pris: 10c

## APÊL AM LETY

**CYFARFOD ATHLETAU YSGOLION CYMRU**
**ym Mae Colwyn,**
**Gorffennaf 1af, 1978**

Bydd plant o bob rhan o Gymru yn cystadlu yn y cyfarfod yma. Mae'r trefnwyr wedi gofyn i blant a rhieni ardal Ysgol Brynrefail fod cystal â rhoi llety yn ddi-dâl i 40 o blant o ysgolion Powys. Bydd hyn yn golygu pryd gyda'r nos a gwely a brecwast am ddwy noson. Bydd y plant yn cyrraedd nos Wener, ac yn gadael fore Sul.

Os byddwch yn gallu cynnig lle i un neu ddau (ddwy) o'r athletwyr ieuanc yma cysylltwch â Dic Parry, Athro Ymarfer Corff, Ysgol Brynrefail, Llanrug (ffôn cartref : Llanberis 846)

# GWOBRAU DI-RI'

**Dydd Llun y Pasg eleni enillodd Gwilym Williams, Ddôl Fach, Cwm-y-glo dri 'chyntaf' yn Sioe Nefyn i ychwanegu at y llu gwobrau a enillodd mewn sioeau cwningod ledled Gogledd Cymru a Lloegr yn ystod y pum mlynedd diwethaf.**

Mae Mr. Williams, sy'n cadw tua deugain o gwningod, yn arbenigo mewn magu'r brid 'Rex'. Mae'r brîd hwn yn nodedig am ei gôt hardd; mae gan Mr. Williams enghreifftiau penigamp o gwningod Rex sydd â chôt wen (ermine) a rhai llwyd, gwinau a du.



*Gelynion ? Go brin !*



*Gwilym Williams a'r gwningen a enillodd naw gwobr gyntaf a'r cwpan am yr orau yn y sioe. (Sioe Amlwch 1977).*

Be' ydi cyfrinach bridiwr llwyddiannus y Ddôl Fach? Yn y lle cyntaf, mae'n gofyn medru 'nabod cwningen fydd yn un dda ar gyfer arddangos. Rhaid i siâp a ffurf y corff, pen a'r clustiau fod yn iawn ac mae'n holl bwysig fod y gôt yn lân a'r un lliw drwyddi, gyda sglein da drosti. Rhan fawr o'r gyfrinach ydi deall pa amser o'r flwyddyn ydi'r gorau i fridio ar gyfer y gwahanol sioeau a gwybod i'r dim pa gywion cwningod ydi'r rhai gorau i'w cadw o bob nythaid. (Bydd rhai dros ben ar ôl dethol, ac mae Mr. Williams yn barod i werthu'r rhain fel anifeiliaid anwes).

Tros y blynyddoedd bu Glyn, mab Mr. Williams, yn ei helpu gyda'r cwningod. Bellach mae gan Glyn ei gwningod ei hun; fe fydd hi'n dipyn o gystadleuaeth rhwng y tad a'r mab. Un arall sy'n helpu drwy warchod y cwningod yw'r ast; fel y gwelir yn y llun, mae'r corgi a'r cwningod yn gryn ffrindiau.

Hyd yn hyn ni chafodd pobl a phlant y fro hon gyfle i weld y cwningod yn cael eu harddangos yn lleol, ond deallwn fod cynlluniau ar y gweill i gynnal sioe gwningod yn ardal Eco'r Wyddfa. Buasai Gwilym Williams yn falch o glywed oddi wrth ddarllenwyr sy'n barod i'w helpu i drefnu sioe (ffôn: Llanberis 851). Y broblem fwyaf yw cael hyd i le addas i'w chynnal. Onid yw'n gywilydd o beth fod pentref o faint Llanrug heb ganolfan gymdeithasol addas ar gyfer sioeau, dawnsfeydd, ysgol feithrin, dramâu ac yn y blaen?

### CYMDEITHAS YR ECO

Diolch o galon i'r rhai ohonoch sydd eisoes wedi mynegi diddordeb yn y syniad o gael Cymdeithas. Ond mae angen rhagor o enwau. Beth amdani? Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch ag unrhyw un o swyddogion y papur.

## GŴYL GYDWLADOL

Ar y pedwerydd o Fai 1890 bu cyfarfod mawr yn Hyde Park, Llundain yn uchafbwynt ymgyrch gan undebwyr llafur Ewrop am ddiwrnod gwaith wyth awr. O'r dydd hwnnw ymlaen ystyriwyd y cyntaf o Fai yn ddiwrnod gŵyl lafur drwy'r byd.

Am flynyddoedd lawer bu chwarelwyr yr ardal hon a'u brodyr ym Methesda, Nantlle a'r Blaenau yn aros adref o'u gwaith ac yn colli diwrnod o dâl er mwyn dathlu'r ŵyl. Buasai'r 'Eco' yn falch o gael peth o hanes y gwyliau llafur a fu. Oes yna ffotograffau o'r Ŵyl ar gael?

Ar y cyntaf o Fai eleni dethlir yr ŵyl lafur am y tro cyntaf erioed gyda diwrnod o wyliau cyhoeddus. Yng Nghaernarfon cynhelir gorymdaith i ddathlu'r dydd – ymgynnull ger safle'r hen stesion am 2.30 p.m. ddydd Llun, Mai 1af. Byddwn yn cyfnewid cyfarchion brawdol gyda gweithwyr gwahanol wledydd. Dylai pob undebwr llafur o bob plaid wleidyddol ddod i'r Ŵyl. Mae'n gyfle i ni ddangos ein cefnogaeth i'n chwiorydd a'n brodyr sy'n brwydro dros gyfiawnder cymdeithasol mewn gwledydd eraill.

Os ydych eisiau mwy o fanylion am yr Ŵyl cysylltwch â Robert Skillicorn, Tan y Weirglodd, Clwt-y-bont (Padarn 242) neu Selwyn Williams, Cartref, Stryd yr Orsaf, Llanrug (Caernarfon 3577).

# Llwyddiant arall i Anwen



**Llongyfarchiadau'r fro i Anwen Jones, merch Mr. a Mrs. Leslie Jones, Penisarwaun sydd wedi ei dewis i gyflwyno'r flodeuged yn seremoni cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon ym mis Gorffennaf. Bydd hefyd yn cyflawni'r gwaith yma yn seremoniau'r coroni a'r cadeirio yn ystod yr Ŵyl y flwyddyn nesa'.**

**Dewiswyd Anwen, sydd ar hyn o bryd yn astudio ar gyfer ei harholiadau safon uwch yn Ysgol Brynrefail, allan o thua 30 o ymgeiswyr am y ddyletswydd arbennig hon.**

**'Roedd ei llun yn yr Eco ddau fis yn ôl ar ôl iddi ennill cystadleuaeth y gadair yn eisteddfod Ysgol Brynrefail. Hi yw gohebydd yr Eco yn yr ysgol.**

# ECO'R WYDDFA

RHIF 26 MAI 1978

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd, Nant Peris.

*Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru.*

**GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:** Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

**GOLYGYDD ERTHYGLAU:** Arwel Jones, Gwên-y-Wawr, Llanrug (C'fon 3719)

**GOLYGYDD NEWYDDION:** Tony Elliott, Crud y Wawr, Bryneglwys, Penisarwaun.

**GOLYGYDD CHWARAEON:** Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun.

**TREFNYDD NEWYDDION YSGOLION:** Iwan Lloyd Williams, Bryn Idris, Llanberis (Llanberis 515)

**DYDDIADUR Y MIS:** Miss Jane Morris, Blodwel, Dôl Elidir, Llanberis (Llanberis 220)

**FFOTOGRAFFWYR:** Ifan Parry, Morwel, Ceunant. (Waunfawr 321) Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669)

**TREFNYDD HYSBYSEBION:** John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug.

**TREFNYDD GWERTHIANT:** Selwyn Williams, Cartref, Ffordd yr Orsaf, Llanrug (C'fon 3577)

**TRYSORYDD:** Gwyn Oliver Jones, 58 Pentre Helen, Deiniolen.

**TREFNYDD GWERTHIANT POST :** Mrs. E. Evans, "Lloc," Llanrug.

**GOHEBWYR PENTREFI:** Dyma'r bobl i gysylltu a nhw yn eich ardaloedd

BETHEL: Geraint Elis, Sycharth, (Portdinorwic 726)

BETWS GARMON: Mrs. Brenda Jones, Bryn Tegid (Waunfawr 294)

BRYNREFAIL: Mrs. Lowri Prys Williams, Godre'r Coed (Llanberis 580)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel (Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs. Gwyneth Chick, 1 Tan y Bryn, Cwm-y-glo.

DEINIOLEN: Gwyndaf Roberts, 8 Ffordd y Gogledd (Llanberis 427)

DINORWIG: O.R.Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 671)

LLANBERIS: Mrs. Siân Thomas, Foelas, Stryd Newton (Llanberis 220)

NANT PERIS: T.J. Roberts, Llys Awel

LLANRUG: Mrs. Eirlys Pierce, Swyn yr Awel, Llanrug. (C'fon 3776)

PENISARWAUN: Leslie Larsen, Llygad yr Haul, (Llanberis 533)

TAN Y COED: Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan y Coed (W'fawr 355)

WAUNFAWR: W. Vaughan Jones, Hafod y Coed (Waunfawr 387)

## CYFRANIADAU

Hoffem ddiolch i'r canlynol am eu cyfraniadau:
£3: Mr. John Moxen, Bwthyn, Llanbedrog. £1: gwobr a ddychwelwyd yn ôl gan Mrs. Megan Jones, Dôl Peris, Llanberis, £1 Mrs. Mary E. Jones, Ty'n Fawnog, Dinorwig. £1: Mrs. G. Owens, 5 Heol Ioan, Llanrwst.

## Y RHIFYN NESAF

Daw'r RHIFYN NESAF allan ar MEHEFIN 1af
Y deunydd i law'r Golygyddion perthnasol erbyn
DYDD MERCHER, MAI 24

# Llanrug Ddoe a Heddiw

*Roedd yn hyfryd gweld y lluniau o'r Urdd a'r caneuon actol yn Eco'r Wyddfa, a diolch am y deyrnged i weithgarwch a fu, yn enwedig gwaith Mrs. Laura Grace Owen, a'i llosgodd ei hun allan gan mor fregus oedd ei hiechyd. 'Roedd hi'n un o'r rhai a gredai ei bod yn well gwisgo allan na rhydu.*

*Bu dwy eisteddfod yn y pentref — Pontrhythallt adeg y Nadolig (coffa da am drio canu ac adrodd wedi bwyta gormod o bwdin Dolig) a Llanrug tua Chwefror neu Fawrth. Cofiwn am gôr plant Griffith Jones, Minffordd a ddysgodd blant y pentre i ddarllen Solffa. Taid Arwel oedd Griffith Jones a byddai ganddo gôr aelwyd yn Eisteddfod Llanrug bob amser. Bu Cwmni Drama Pontrhythallt yn perfformio yn flynyddol yn Neuadd yr Eglwys am lawer blwyddyn. Cofiwn hefyd am weithgarwch Mrs. Bessie Jones a hyfforddodd gorau adrodd, enillwyr cenedlaethol droeon; actores heb ei hail a gymerodd ran mewn dramâu Sefydliad y Merched yn y pumdegau.*

*Daeth yr ail Ryfel Byd a chwalwyd y Gymdeithas, ac aeth rhai yn rhy hen. Godrwyd y pentref o lawer o ieuenctid yn gorfod gadael i chwilio am waith. Daeth y ceir a'r teledu — y pethau a wnaeth fwyaf o newid mewn cymdeithas.*

*Ond peidied neb â meddwl fod pentref Llanrug yn hollol ynghwsg heddiw. Un peth sydd wedi dal ei dir yma ar hyd y blynyddoedd yw'r Seindorf, neu'r 'Band' ar lafar gwlad. Y mae gennym le fel ardal i ymfalchïo ynddo. A phan fydd yn rhoi perfformiad hyfryd gweld cymaint o aelodau ifanc. Dylai'r ardal roi pob cefnogaeth i'r Band.*

*Faint o ardaloedd sydd â dwy Gymdeithas Lenyddol lewyrchus? Mae clod yn ddyledus i ysgrifenyddion gweithgar ac ymroddgar.*

*Y mae gennym achos llawenhau fod yma do o bobl ifanc bywiog wedi dod i fyw i'r ardal. Efallai nad yr un math o weithgarwch a geir, ond gweithgarwch serch hynny. Y mae'r rhan fwyaf o bobl Llanrug yn edrych ymlaen at ddarllen Eco'r Wyddfa o fis i fis, heb sôn am y Cymry oddi cartref. Dyma ichi waith — casglu erthyglau, hanesion a'u rhoi wrth ei gilydd, a hynny'n DDI-DÂL. Diolch am y bobl ifanc sydd wrthi mor ddiwyd. Daliwch ati.*

*Gresyn na fuasai'r holl bentref yng nghyfarfod mis Mawrth o Ferched y Wawr, i glywed adrodd, canu, cerdd dant a dawnsio gwerin — talentau lleol i gyd, a thelynores (Diolch amdani) sy'n rhoi ei gwasanaeth i'r pentref eto yn DDI-DÂL.*

*Beth am y criw sy'n ceisio sicrhau Pwll Moelyn er mwyn gwneud lle i blant y pentref chwarae? Nid peth bach yw mynd o amgylch y pentref ar fore Sadwrn i gasglu papur newydd i godi arian i addasu Pwll Moelyn — heb sôn am ymdrechion eraill.*

*Diolch eto a daliwch ati.*

*Y mae yna weithgarwch ymysg y mamau ifanc gyda'r ysgol feithrin a diolch i eglwys Pontrhythallt am roddi cartref iddynt yn y festri "Gadewch i blant bychain"!*

*Y mae yma weithgarwch at Eisteddfod Genedlaethol 1979 sydd i'w chynnal yng Nghaernarfon. Yr ifanc gan fwyaf sy'n gweithio gyda 'Rigarug' i godi arian. Ganddynt hwy mae'r ynni, mae'n wir, ond gallent droi'r ynni hwnnw at bethau salach.*

*Daw'r tîm pêl-droed â chlod i'r ardal, a 'r rhan fwyaf ohonynt yn fechgyn lleol. Mae dipyn o waith trefnu i gadw tîm pêl-droed yn mynd. Nac anghofiwn Flodau'r Grug i'r henoed. Na, nid ydym yn hollol ddiog yma HEDDIW. Pwy a ŵyr na welwn Eisteddfod Plant yma eto ac Urdd? Rhown bob cefnogaeth i ymdrechion y "bugeiliaid newydd sydd ar yr hen fynyddoedd hyn".*

*Un o blant y fro.*

---

# LLYTHYRAU

*Ward 4,*
*Ysbyty Abergele,*
*Clwyd.*

*Annwyl Olygydd,*

*Carwn ddiolch yn fawr i Bwyllgor Plaid Lafur Deiniolen, ei ysgrifennydd, Les Roberts ac Alun Wyn Evans a Mrs. Eirlys Jones ac eraill am drefnu Cyfarfod ar fater y Llwch Chwarel yn Ysgol Gwaun Gynfi Deiniolen, ac i Mr. Idwal Edwards am ddod yno i annerch. Hefyd carwn ddiolch i ddau Aelod Seneddol Plaid Cymru, Dafydd Wigley a Dafydd Ellis Thomas am ddod i annerch i Festri Gorffwysfa Llanberis. Er yn yr ysbyty hon clywais a gwelais y Cyfarfod ar y teledu. Yn anffodus oherwydd fy ngwaeledd nis gallwn fod yn ur un o'r ddau gyfarfod. Nid yw'r mater hwn yn boliticaidd ond yn fater o ddioddefaint. Gwir fod llawer trwy'r wlad yn yr un argyfwng â'r hen Chwarelwr mewn gweithfeydd eraill fel y Cotwm ac yn y blaen. Bydd rhaid cryfhau yr ymdrechion trwy Undebau y gwahanol weithfeydd er pwyso ar y Llywodraeth i ddod â chyfartaledd i'r Chwarelwyr ac eraill fel yr hawliau mae'r Glowr yn ei gael. Ac ymrech arbennig i roi pensiwn teilwng i'r gweddwon sydd wedi eu gadael mor unig ar gardod o bensiwn ar ôl eu rhai annwyl.*

*Diolch i bawb am eu cymorth a'u cydymdeimlad.*

*Yr eiddoch,*
*R.H. Jones,*
*Deiniolen.*

*Annwyl Olygydd,*

*Mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg wedi galw ar gynghorau sir a dosbarth o Fôn i Fynwy i roi Statws Cynllunio i'r iaith Gymraeg: hynny yw fod sefyllfa'r iaith Gymraeg yn dod yn rhan annatod o gynllunio cymdeithasol — fel, er enghraifft, datblygiadau tai.*

*Yn anffodus, mae caniatâd cynllunio ar gyfer oddeutu 200 o dai preifat ym mhentref Llanrug yn unig. Mae'n amheus iawn gen i a oes galw am gymaint o dai o'r fath ymysg trigolion Llanrug neu hyd yn oed ymysg holl boblogaeth dalgylch Eco'r Wyddfa. O ganlyniad, mae perygl mawr i lawer o'r tai hyn ddyfod yn eiddo i Saeson neu Gymry ariannog fel tai haf neu gartrefi i ymddeol ynddynt. Byddai hyn wrth reswm yn niweidiol dros ben i'r gymdeithas Gymraeg sydd ohoni yn yr ardal. Mae gorddatblygiad cyffelyb wedi tagu Cymreictod mewn llawer ardal Gymraeg yng Nghlwyd ac enghraifft o hyn yw pentref Henllan, ger Dinbych, sydd bellach yn hollol Seisnigedig yn ieithyddol ac yn ddiwylliannol.*

*Fodd bynnag, mae Cymdeithas yr Iaith yn ymwybodol iawn o'r perygl hwn i'n mamiaith a byddwn yn gwneud pob ymdrech i rwystro datblygiadau fel hyn, a fydd yn debygol o fod yn niweidiol i'n hiaith a'n diwylliant. Byddwn yn y dyfodol agos yn erfyn am gefnogaeth pobl y fro i'n hymgyrchoedd. Y mae'n holl bwysig ein bod ni fel Cymry Cymraeg yn brwydro i'r eithaf i sicrhau dyfodol i'r iaith Gymraeg a'r holl werthoedd sydd ynghlwm wrthi.*

*Yn gywir,*
*Richard Roberts,*
*(Arweinydd Grŵp Tai Cymdeithas yr Iaith Gymraeg)*
*Gwyndy, Ffordd Bethel,*
*Llanrug.*

E. & E.M. GREEN
SIOP GRON
A SWYDDFA'R POST
PENISARWAUN
Ffôn: PADARN 272
NWYDDAU GROSER
FFRWYTHAU A LLYSIAU FFRES

# LLANBERIS

**ARDDANGOSFA** – Nos Iau, Ebrill 6 yn Ysgol Dolbadarn, cynhaliwyd Noson Goffi ac Arddangosfa o waith dosbarth arlunio Llanberis.

Cafwyd cefnogaeth wych i'r noson. Enillwyr y raffl: 1af: Mrs. Frieda Jones, Stryd Newton (darlun wedi ei beintio, gan Mrs. Barbara Owen, ac wedi ei osod ar ffram gan y diweddar Mr. Tom Morris). 2il: Mrs. Dolly Simpson, Waunfawr (darlun ar lechen gan Mr. George Lovett).

**FFARWELIO** – Prynhawn Llun, Ebrill 10 cyfarfu staff Gwesty'r Victoria ynghyd i ffarwelio â Mrs. A.W. Wagner, Tegfan, Llanrug ar ôl blynyddoedd o wasanaeth i'r cwmni. Bwriad Mrs. Wagner yw gwneud ei chartref yn Awstralia gyda'i merch.

Cyflwynodd Mr. D.O. Evans, ar ran cwmni Benjamin Akerly Holding, oriawr hardd i Mrs. Wagner, ac ar ran gweithwyr y gwesty cyflwynwyd clustdlysau i Mrs. Wagner gan Mrs. Mackeen

Pob hapusrwydd a hir oes i chwi yn eich gwlad newydd Mrs. Wagner!

**ADREF O'R YSBYTY** – Croeso gartre' o'r ysbyty i Mr. Thomas, Stryd Turner.

**LLONGYFARCHION** – i Mr. a Mrs. Dennis Carr, 86 Maes Padarn ar enedigaeth eu mab bach Gavin Stuart.

**CROESO** – Mae Mr. Brian Jones, brodor o Gaernarfon wedi ymuno â Staff Gweinyddol Gwesty'r Victoria. Croeso i'r ardal Mr. Jones.

**MARWOLAETH CYN–WEINIDOG** – **Trist oedd clywed am farwolaeth** y Parch. John Alwyn Parry, M.A., B.D., a fu yn weinidog ar Gapel Coch a Rehoboth, Nant Peris o 1945 hyd 1971. Wedi ei ymddeoliad aeth ef a'i briod i Landysul i ymgartrefu. Cydymdeimlwn yn fawr iawn â Mrs Parry yn ei phrofedigaeth.

**PRIODAS** – Llongyfarchiadau i Barry Lloyd Hughes, 27 Maes Padarn ar ei briodas â Miss Gwendoline Ann Jones, Blaenau Ffestiniog. Byddant yn ymgartrefu yn y pentref.

**DIOLCH** – Dymuna Mona a Dylan ddiolch o galon am y llu anrhegion a'r cardiau a dderbyniasant ar achlysur eu dyweddïad.

**AR GOLL** – Mae Menai Jones, 60 Dôl Elidir wedi colli cadwyn arian a chalon arian ynghlwm wrthi. Os daw rhywun ar ei thraws a wnewch chi ei dychwelyd i Menai os gwelwch yn dda.

**AR GOLL** – Collwyd 'watch' Rotary aur rhwng Stryd Newton a'r Padarn Lake nos Sadwrn, Ebrill 22 rhwng 7 ac 8 o'r gloch. Byddai'r perchennog yn ddiolchgar iawn i'r sawl a ddaw o hyd iddi a'i dychwelyd. Ffôn: Llanberis 220.

**CRONFA EISTEDDFOD '79** – Nos Sadwrn, Ebrill 22 cafwyd noson arbennig o dda yn y Padarn Lake yng nghwmni Arwel Jones. Mwynhawyd pryd o gyw iâr a sglodion i ddechrau a threuliwyd gweddill y noson dan arweiniad difyr a chartrefol Arwel.

Nos Wener, Mai 12 cynhelir Bingo yn y Ganolfan am 7.30.

Nos Wener, Mai 19 bydd Ffair Wanwyn yn Ysgol Dolbadarn. Os gallwch gyfrannu mewn unrhyw fordd byddwn yn wir ddiolchgar o dderbyn addewidion a rhoddion cyn gynted ag sydd bosib. Mae'r canlynol yn gyfrifol am wahanol stondinau: Teisennau: Mrs. Helen Morris, Mrs. Enid Jones. Cynnyrch Cartref a Fferins: Mrs. Davies, Garage, Ann a Mrs. Marie Evans. Gwaith Llaw: Mrs. Sian Thomas, Mrs. Muriel Lloyd a Mrs. Nerys Roberts. Planhigion: Miss Jane Morris. Llyfrau a Chomics: Mrs. Enfys Parry a Mrs. Beryl Lewis. Eliffant Gwyn' Miss Gwyneth Parry a Mrs. Maureen Lennon. Poteli: Mrs. Gwyneth Jones, Mrs. Brenda Parry. Nwyddau: Mrs. Vera Griffith a Mrs. Lowri Thomas. Gallwch eu rhoi yn Siop Trevor neu yn y Gift Shop os mynnwch.

Mis Mehefin bwriedir cael Helfa Drysor gyda cheir. Ceir manylion pellach yn y rhifyn nesaf.

Mae'r Gronfa ar hyn o bryd oddeutu £950. Diolch i chwi am eich cefnogaeth.

**PRIODAS** – Ar Sadwrn y Pasg, yn Eglwys Sant Padarn, priodwyd Nerys Williams, merch Mr. a Mrs. Glyn Williams, 18 Maes Padarn a Gwyn Jones, mab Mr. a Mrs. Daniel Jones, 24 Blaen-y-Ddol, y Bala. Mae'r pâr ieuanc wedi cartrefu ym Mwlch Gwyn, Wrecsam, lle maent yn athrawon.

**EISTEDDFOD** – Nos Iau, Ebrill 20 a nos Wener, Ebrill 21 cynhaliwyd Eisteddfod Gofalaeth Llanberis, Nant Peris a Nant Padarn. Beirniaid oedd: Canu: Mr. W.G. Davies, Sir Fôn. Adrodd: Mr. Aled Roberts, Y Felinheli, a'r cyfeilyddion: Mrs. Ann Pritchard a Mrs. Beti Evans. Llywyddion: Mr. Alan Roberts, y Groeslon a Mr. John Pritchard, Llanberis.

**Enillwyr: Canu dan 4: 1. Euron; 2.** Nicola, Carys a Fawn. 3.
Dan 5: 1. Trystan, 2. Deian, Alan, 3. Simon. Dan 6: 1. Darryl, 2. Einir, 3. Chris, Bryn, Delyth. Dan 7: 1. Nia; 2. Dylan; 3. Jackie. Dan 8: 1. Iestyn; 2. Siân-Elen; 3. Arwyn.Dan 10: 1. Mark; 2. Ann; 3. Einir. Dan 12: 1. Rhiannon, 2. Bethan; 3. Glenda. Dan 14: 1. Rhian 2. Carol, Debra. 3. –. Dan 17: 1. Rhian 2. Mark. Adrodd dan 4: 1. Euron, Carys, 2. Nicola, 3. Fawn. Dan 5: 1. Trystan, 2. Deian, Iestyn, 3. Julie, Jennifer. Dan 6: 1. Einir; 2. Darryl; 3. Delyth, Neil. Dan 7: 1. Jackie, 2. Nia, 3. Dylan. Dan 8: 1. Iestyn, 2. Gillian, Arwyn, 3. Siân, Mandy. Dan 10: 1. Colin, 2. Mark, 3. Ann. Dan 12: 1. Bethan, 2. Rhiannon, 3. Ioan, Iona. Dan 14: 1. Rhian, 2. Amanda. Dan 17: 1. Delyth. Canu'r Piano: Dan 10: 1. Ffion. 2. Ann; 3. Gwynfor, Timothy, Einir. Dan 12: 1. Rhiannon, 2. Jennifer 3. Bethan. Grŵp Pop: 1. Parti Twm Siôn Cati, Parti Modryb Mari. Parti Canu dan 10: 1. Parti Preswylfa, 2. Parti Colin, 3. Parti Nant Padarn, 4. Parti Alan. Parti Adrodd dan 8: 1. Parti Nia. 2. Parti Einir. Dan 12: 1. Parti Gillian, 2. Parti Mark.Parti Adrodd Agored dan 12: Parti Dylan; 2. Parti'r Wyddfa. Parti Canu dan 15: 1. Parti Melanie. 2. Parti Preswylfa. Piano dan 14: 1. Dilys, 2. Carys, 3. Rhian. Can Werin: 1. Rhian. Deuawd. 1. Carys a Rhian. 2. Rhiannon a Delyth. Deuawd gyda'r Piano: 1. Rhiannon a Delyth. 2. Bethan a Carys. 3. Rita a Jennifer. Unrhyw offeryn heblaw piano: 1. Delyth, 2. Rhian ac Iwan, 3. David John.

**MARWOLAETH** – Nos Sul, Ebrill 16 yn Ysbyty Môn ac Arfon bu farw Mr. Thomas Owen Morris, 5 Warden Street. Brodor o ardal y Groeslon oedd Mr. Morris. 'Roedd yn 69 oed. Gedy weddw, Mrs. Katie Morris, un ferch (Mrs. Myra Jones) a dwy wyres (Carol a Sharon). 'Roedd yn aelod o Gapel Bethel (W), ac yn aelod blaenllaw o Ddosbarth Arlunio Mrs. Barbara Owen. Bu'n gweithio am gyfnod hir ar Reilffordd yr Wyddfa. 'Roedd ei garedigrwydd a'i ymddygiad tawel a'i hiwmor iach wedi ennill llu o gyfeillion iddo yn ardal Llanberis.

Rhoddwyd ei weddillion i orwedd ym mynwent Nant Peris, ddydd Iau, Ebrill 20, gyda'r Parch. George Brewer yn gwasanaethu yn y tŷ ac yn y fynwent.

## YMDDEOLIAD IEUAN ELLIS JONES



**Rhyfedd meddwl mai tro nesaf yr awn i Fferyllfa Llanberis na welwn Mr. Ieuan Ellis Jones tu ôl i'r cownter. Penderfynodd Ieuan Jones ymddeol o'r swydd o Fferyllydd ddiwedd y mis hwn.**

Dyma ei wythfed mlynedd ar hugain fel Fferyllydd yn Llanberis. Mae gennym fel trigolion bro Eco'r Wyddfa ddyled i Mr. Ieuan Jones. Bu'n hynod hael gyda chymdeithasau yn Llanberis, bu'n barod bob amser gyda'i gymorth i sawl un mewn angen,ac oherwydd ei bersonoliaeth gref bu'n ŵr i'w edmygu.

Dymuna'r Eco ddiolch iddo am ei gefnogaeth a'i gymorth.

Dymuna Mr. Ieuan Jones ddiolch o galon i drigolion Llanberis a'r cylch am eu cefnogaeth ar hyd y blynyddoedd. Gobeithia hefyd y bydd yr un bobl yn cefnogi'r perchennog newydd, sef Mr. R. Gartside a fydd yn dechrau fel Fferyllydd y mis nesaf.

Pob dymuniad da Mr. a Mrs. Jones.

# BETHEL

**EISTEDDFOD CAERNARFON** – Enillwyr y Clwb Cant mis Ebrill oedd: £20: Mr. H.P. Hughes, Stad Eryri; £15: Mr. Brian Williams Cefn y Gwynt, £5: Mr. Thomas Parry, Fachell. Fe dynnwyd y gwobrau yng Nghyfarfod misol Merched y Wawr, nos Fercher, Ebrill 12. Erbyn hyn mae 120 o aelodau yn y Clwb Cant ac fe fydd yr elw ohono yn hwb mawr i gyrraedd y nod o £2,200.

**MERCHED Y WAWR** – Oherwydd fod yr Athro Bedwyr Lewis Jones, Bangor yn wael ni allodd ddod i'r cyfarfod o Ferched y Wawr yn yr Ysgol nos Fercher, Ebrill 12. Bu'r noson dan ofal Mrs. Williams, Gwylfa a dewiswyd swyddogion ar gyfer y tymor nesaf sef: Llywydd: Mrs. Williams, Gwylfa; Islywydd: Mrs. Megan Evans, Hafod; Ysgrifennydd: Mrs. Rita Williams, Tan y Cae; Is-ysgrifennydd: Mrs. Elizabeth Hughes, Bethlyn; Trysorydd: Mrs. Ceinwen Williams, Bryn Pistyll. Dewiswyd Mrs. Hughes, Ysgoldy, Mrs. Mair Price, Tan y Ffordd, Mrs. Mair Jones, Glangors a Mrs. Beti Owen, Crud yr Awel i fod ar y pwyllgor gyda'r swyddogion.

Gofynnwyd i Mrs. Williams, Gwylfa a Mrs. Hughes, Ysgoldy i gynrychioli'r gangen yn y Gynhadledd Flynyddol yn Aberystwyth fis Mai.

**DIOLCH** – Gan ei bod wedi dechrau gweithio mae Mrs. Ann Hughes, Bron Gwynedd wedi rhoi'r gorau i werthu'r *Eco*. Diolch am ei gwasanaeth a hefyd i Mrs. Hilary Griffiths, Llys Arfon am gymryd ei lle.

**PLAID CYMRU** – Nos Fercher, Ebrill 19 cynhaliwyd Gyrfa Chwist yn y Neuadd gyda Mr. Goronwy Jones, Glangors yn arwain. Cafwyd noson ddifyr dros ben gyda chriw da wedi dod i chwarae. Yr enillwyr oedd: Hanner amser: Mrs. Parry, Llanllyfni, Cyntaf: Mrs. Grace Williams, ail Mrs. Parry, Llanllyfni, Trydydd: Siân Morgan, Llwyn Bedw, pedwerydd: Mrs. Beti Morgan, Llwyn Bedw. Mrs. Myfanwy Jones, Glangors a gafodd y bwbi.

Mrs. Owen, Llanberis ac Ann Hopcyn, Gorffwysfa oedd enillwyr y raffl.

**LLONGYFARCHIADAU** – i Gastell Coch, Rhuthun am ddarganfod dawn farddonol Bili Evans, Gorffwysfa. Cafodd Bil wobr am gwblhau limerig yn y Castell yn ddiweddar.

**CLWB Y RHOS** – Nos Sadwrn, Ebrill 22 bu aelodau Clwb y Rhos ym Mhlas Tandinas yn cael eu cinio blynyddol. Cafwyd noson lwyddiannus iawn gyda Mr. Kenneth Ellis, Rhos Alun, gynt, yn ŵr gwadd. Soniodd Mr. Ellis, sy'n ddirprwy brifathro yn Ysgol Aberconwy, am ei hen atgofion,ond i wneud y peth yn wahanol ac yn ddiddorol iawn, chwaraeodd amryw o alawon, a oedd yn dwyn gwahanol gyfnodau i'w gof, ar y piano.

**LLONGYFARCHIADAU** – i Ann Evans, Blaen Parc a Helen Jones, Glan Gors sydd ar fin dechrau cyfnod newydd yn eu gyrfa. Mae Ann wedi dechrau ar gwrs hyfforddi i fod yn nyrs ym Mangor a phan fydd Helen yn gorffen ei chwrs yng Ngholeg Technegol Gwynedd, Bangor bydd yn mynd i lawr i Bontypridd i ofalu am blentyn Meinir Heulyn, y delynores enwog.

**CYDYMDEIMLO** – Yn ystod y mis bu farw Mrs. Martha Mary Owen, Ceidio, Tref Gof a Mrs. Amy Lizzie Williams, Mynydd Llandegai. 'Roedd Mrs. Owen yn byw ym Mhlas y Coed Bangor ers tro a bu Mrs. Williams yn byw gyda'i merch a'i mab-yng-nghyfraith yn y Post am gyfnod.

Mae'n cydymdeimlad llwyraf â'r ddau deulu yn eu profedigaeth.

**NEWYDDION I'R ECO** – Ydi *Eco'r Wyddfa* yn anwybyddu eich cymdeithas chwi, eich pen-blwydd, pen-blwydd eich mab neu ferch yn ddeunaw oed? Ydi *Eco'r Wyddfa* heb sôn am y gwpan a enill'soch am rasio colomenod? Os oes gennych unrhyw stori neu hanesyn i'w roi yn *Eco'r Wyddfa* rhowch nodyn i Geraint Elis, Sycharth. Os nad yw yn gwybod ni all sôn amdano.

CEFNOGWCH
EIN
HYSBYSEBWYR

**Wavell Roberts**
**CIGYDD**
**LONDON HOUSE**
**LLANRUG**
**Ffôn: Caernarfon 3574**
***PEN CIGYDD Y FRO!***
**Yr ŵyn lleol mwyaf blasus**
**Selsig cartref, cigoedd parod i'w bwyta**
**Archebion ar gyfer y rhewgist**
**MYNNWCH Y GORAU**
**A DEWCH ATOM NI!**

# LLANRUG

**MERCHED Y WAWR** — Cyfarfu'r gangen yn y Sefydliad Coffa, nos Fawrth, Ebrill 11, gyda Mrs. Nansi Roberts, Annedd Wen yn y gadair. Gan nad oedd y gŵr gwadd yn bresennol penderfynwyd troi'r cyfarfod yn gyfarfod blynyddol a dewiswyd y swyddogion a ganlyn: Llywydd: Mrs. Nansi Lovatt; Is-lywydd: Miss Phyllis Ellis; Ysgrifennydd: Mrs. Beth Ann Williams; Is-ysgrifennydd: Mrs. Eirlys Pierce; Trysorydd: Mrs. Mary Roberts; Isdrysorydd: Mrs. Ann Lloyd Griffith; Gohebydd y Wasg: Mrs. G.M. Jones; Dosbarthwr 'Y Wawr': Mrs. Sheila Jones; Pwyllgor: Mrs. Megan Roberts, Mrs. Enid Wh. Thomas, Mrs. Ann Llwyd, Mrs. Jean Davies, Mrs. Roberta Griffith a Mrs. Helen Parry. Diolchwyd i'r gwestwragedd gan Mrs. Olwen Hughes. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Mai 9. Gweler hysbyseb yn y siopau pwy fydd y siaradwr gwadd. Trefnir gwibdaith fin nos ym mis Mehefin i Lŷn.

**CRONFA GOFFA MR. TOM EVANS, LLOC** — Dymuna'r Parch. W.O. Roberts gydnabod yn ddiolchgar y rhoddion a dderbyniodd tuag at y gronfa uchod. Derbyniwyd y swm o £150. Cyflwynwyd £75 i Gapel Mawr, Llanrug a £75 i'r Ysgol Feithrin.

**BEDYDDIO** — Dydd Sul, Ebrill 2 yn y Capel Mawr a'r Gweinidog, y Parch. W.O. Roberts yn gwasanaethu, bedyddiwyd Sera, merch fach Mr. a Mrs. Richard Thomas, Feolas.

**CYFARFOD DOSBARTH LLANBERIS** — Nos Fercher, Ebrill 12 yn Festri Tanycoed cynhaliwyd Seiat dan nawdd Cyfarfod Dosbarth Eglwysi Presbyteraidd cylch Llanberis a Llanrug. Llywyddwyd gan Mr. Iolo Llywelyn, M.A. Arweiniwyd mewn defosiwn gan Miss M.A. Humphreys Tanycoed. Mater y Seiat oedd 'Lle Gweddi mewn Gwasanaeth' ac agorwyd yn effeithiol iawn gan Mr. Ifan R. Roberts, B.A., Tŷ Capel, Llanrug. Cyfeiriodd y llywydd at farwolaeth y diweddar Mr. Tom Evans, Lloc a oedd yn Ysgrifennydd y Cyfarfod Dosbarth. Penderfynwyd ein bod yn anfon cydymdeimlad Eglwysi'r Dosbarth a Mrs. Evans yn ei phrofedigaeth. Cydymdeimlwyd hefyd â Mrs. J. Alwyn Parry yn ei phrofediaeth o golli ei phriod, y Parch. J. Alwyn Parry a fu'n Weinidog yn y Capel Coch, Llanberis am gyfnod maith, a'r Parch. G. Angell Jones, cyn-weinidog Eglwys Pontrhythallt ym marwolaeth ei briod. Etholwyd Mr. Gwynfor Williams, Gorffwysfa yn olynydd i'r diweddar Mr. Tom Evans fel Ysgrifennydd y Cyfarfod Dosbarth.

**O'R YSBYTY** — Croeso adref i Mrs. R.D. Williams Y Berllan o Ysbyty Môn ac Arfon, lle bu o dan driniaeth lawfeddygol yn ddiweddar. Brysiwch wella.

**CLWB BLODAU'R GRUG** — Cynhaliwyd cyfarfod yn y Sefydliad Coffa brynhawn Iau, Ebrill 13. Llywyddwyd gan y Rheithor. Y wraig wadd oedd Mrs. Mary Grace Williams, Bethel, a rhoddodd hanes yr ardal mewn sgwrs ddiddorol a diymhongar iawn. Diolchwyd iddi gan Mr. Gwilym Jones-Evans, Mrs. Myfi Roberts a Mrs. M. Lloyd Williams. Y gwestwragedd oedd Mrs. M. Lewis, Madryn House, Mrs. Nancy Jones, Madryn, Mrs. Megan Williams, Gweledfa a Mrs. Myfi Roberts, 2 Tai Plastirion. Rhoddwyd y raffl gan Mrs. Williams, Tremallt, ac fe'i henillwyd gan Mrs. Griffith, Dolanog.

**UNDEB Y MAMAU** — Cyfarfu'r aelodau yn y Rheithordy ar Ebrill 20, o dan lywyddiaeth Mrs. Williams, Y Rheithordy. Agorwyd y cyfarfod drwy weddi gan y Rheithor. Bydd manylion pellach yn rhifyn nesaf.

**PRIODAS** — Ddydd Llun y Pasg priodwyd Norman Jones, o Benisarwaun a Deborah Jane Shenton, merch Mr. a Mrs. F. Shenton, Rochdale House, Llanrug. Gweinyddwyd y seremoni yn Eglwys Sant Mihangel gan y Rheithor. Dymunwn i'r pâr ifanc bob bendith a hawddfyd.

**CYMDEITHAS CHWIORYDD CAPEL MAWR** — Nos Iau cyntaf y mis cafwyd Noson Goffi. Dechreuwyd trwy ddefosiwn gan Mrs. Nansi Roberts, Annedd Wen. Anfonwyd cofion at y chwiorydd oedd yn wael a balch oeddym o weld rhai wedi gwella ac yn bresennol gyda ni. Diolchwyd am roddion o lieiniau byrddau at wasanaeth y festri gan Mrs. Lovatt, Brwynog, Mrs. Llywelyn, Pantafon Bach, Mrs. Arwel Jones, Gwen-y-Wawr a Mrs. Gwilym Jones, Gorwel. Pasiwyd i fynd am wibdaith gyda'r nos ar Mai 11. Rhoddwyd y coffi gan Mrs. T. Evans, Lloc a Mrs. Gwilym Owen, Glasgoed a diolchwyd iddynt gan y llywydd. Bydd cyfarfod olaf y tymor hwn nos Iau, Mai 4.

**MARW** — Fore dydd Gwener, 14 o Ebrill bu farw Mrs. Ellen Thomas, Y Llythyrdy, Llanrug. Gwraig siriol a bonheddig oedd Mrs. Thomas, ac yn barod ei chymwynas bob amser. Cyn symud i'r Llythyrdy ychydig flynyddoedd yn ol yr oedd y teulu'n byw ym Mryniau'r Fawnog. Yr oedd ei diweddar briod yn flaenor yng Nghapel Tanycoed. Bu ei hangladd ddydd Mawrth, Ebrill 18 ym Mynwent Eglwys Sant Mihangel. Gwasanaethwyd gan y Parch. W.O. Roberts, ei gweinidog, Y Parch. Harri Parri, Caernarfon, a chan Reithor Llanrug, y Parch. D. Gwynfor Williams. Cydymdeimlir â'i phlant, Miss Beryl Thomas, Y Llythyrdy, Mrs. Joan Jones, Caernarfon a Mr. Tecwyn Thomas, Sir Fôn, ac â'i brawd Mr. Parry o Lanberis.

**NEWYDDION Y SEINDORF** — Llongyfarchiadau eto i'r Seindorf a ddaeth yn drydydd allan o bedwar ar hugain mewn cystadleuaeth a gynhaliwyd yn Pontins, Prestatyn. Byddant yn cystadlu 'nawr yn y Gystadleuaeth Derfynol a gynhelir yno ym mis Tachwedd. Ein diolch i'r cefnogwyr a ddaeth gyda ni. Byddant yn cystadlu yno eto ar Fai 28.

Trefnwyd noson o Gaws a Gwin gan Bwyllgor Merched y Seindorf yn ddiweddar. Cafwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni Mr. Arwel Jones ynghyd ag aelodau o Barti Eryri. Diolchwyd i bawb gan Mrs. Heulwen Williams.

**GWASANAETH NOS IAU CABLYD** — Bu gweinyddiad o'r Cymun Bendigaid yn Eglwys Sant Mihangel ar nos Iau Cablyd. Yr oedd yn wasanaeth cydenwadol a thraddodwyd y bregeth gan y Parch. George Brewer, Y Felinheli, a darllenwyd gan y Parch. W.O. Roberts, Llanrug ac arweiniwyd y gweddiau gan Mr. T. Thomas o gapel y Bryngwyn. Y Rheithor a weinyddai'r Offeren. Yr organyddes oedd Mrs. M. Jones, Ogwen. Daeth cynulleidfa dda ynghyd,a thystiolaeth pawb oedd fod y gwasanaeth wedi bod o fendith.

**GWASANAETHAU'R PASG** — Bu cynulleidfaoedd da iawn yng ngwasanaethau'r Pasg yn Eglwys Sant Mihangel. Y Rheithor a weinyddai yn y gwasanaethau i gyd. Fel arfer addurnwyd yr Eglwys yn ddeniadol iawn ar gyfer yr Ŵyl bwysig hon.

**FESTRI'R PASG** — Cynhaliwyd Festri'r Pasg yn yr Ysgol Gynradd yn ddiweddar. Agorwyd y cyfarfod gan y Rheithor drwy weddi. Etholodd y Rheithor Miss A.C. Jones, Glanllyn yn warden iddo ef ac etholwyd Mr. Terry Lloyd Jones yn warden y bobl. Etholwyd Cyngor Plwyfol Eglwysig a derbyniwyd y Fantolen. Diweddwyd y cyfarfod drwy weddi.

**CLWB IEUENCTID** — Yn ystod mis Mawrth cynhaliwyd Noson Goffi hynod o lwyddiannus o dan nawdd y Clwb Ieuenctid lleol yn yr Ysgol Gynradd. Sicrhawyd elw o £28, a bydd £15 o'r swm yn cael ei gyflwyno i blant Ysgol Pendalar, Caernarfon. Aeth saith aelod o'r clwb ynghyd â'r arweinydd, Mr. Michael Roberts i'r Ysgol ddydd Gwener, Ebrill 21 i gyflwyno'r swm o £15 i'r Ysgol. Diolch i'r masnachwyr lleol am eu cefnogaeth i'r Raffl, a hefyd i brifathro a staff yr ysgol am eu cefnogaeth.



**PRIODAS** — Yng Nghapel Mawr, Llanrug, ddydd Sadwrn, Mawrth 25 priodwyd William Elidir Owen, mab hynaf Mr. a Mrs. D.G. Owen, Glasgoed, Llanrug a Sharon Thomas, merch Mr. a Mrs. Elwyn Thomas, Hafan, Llanrug. Gweinyddwyd gan y Parch. W.O. Roberts a'r Parch. D.R. Roberts, B.Sc., Garreglefn. Dymunwn bob hapusrwydd iddynt yn eu bywyd priodasol.

**LLONGYFARCHIADAU** — i Einir Parry, merch Mr. a Mrs. Ifan Parry, Morwel, Ceunant ar ei llwyddiant mewn Arholiad Gradd 1 ar y piano. Hyfforddir hi gan Mrs. R. Griffith, Bod Elwy, Llanrug.

**HELFA DRYSOR** — Nos Wener, Ebrill 21 cafwyd Helfa Drysor wedi ei threfnu gan Gangen Plaid Cymru. Llwyddodd pawb i gyrraedd Plas Tan Dinas mewn llai na dwy awr. Yno, tynnwyd rhifau buddugol 'Y Clwb Cant', sydd newydd ei sefydlu.

**CYFARCHION** — i Alwyn Williams, 2 Rhos Rug, ar gyrraedd ei 21 oed.

**BEDYDD** — Yn ddiweddar bedyddiwyd Iona Wyn Williams, merch Mr. a Mrs. Gareth Williams Fron Olau.


Cefnogwch

ein

Hysbysebwyr


# DEINIOLEN

**SNWCER** — Aeth aelodau o'r Clwb Snwcer i Sheffield ddydd Sadwrn, Ebrill 22 i wylio cystadlaethau Pencampwriaeth y Byd.

**DISGO** — Nos Wener, Ebrill 14 cynhaliwyd Disgo hynod o lwyddiannus yn yr Ysgol Gynradd gyda'r elw yn mynd tuag at gronfa leol yr Eisteddfod Genedlaethol.

**COFIWCH** — Cynhelir Noson Goffi gyda stondinau amrywiol yn yr ysgol ar ddydd Gwener, Mai 5, a'r elw yn mynd tuag at Apel Gwaun Gynfi (Cronfa Eisteddfod Caernarfon).

**CYFARFOD PREGETHU** — Cynhelir Cyfarfod Pregethu yng Nghapel Ebeneser (A), ddydd Sul, Mai 21 gyda'r Parch. Hedley Gibbard, Pwllheli yn pregethu.

**EISTEDDFOD BENTREF** — Siomedig oedd y gefnogaeth i'r Cyfarfod Cyhoeddus a gynhaliwyd yng Nghapel Tabernacl nos Fawrth, Ebrill 18, i drafod y bwriad o sefydlu Eisteddfod Deiniolen. Serch hynny cafwyd trafodaeth ddefnyddiol ac adroddiadau buddiol ar y llwybr i'w ddilyn yn hynny o beth. **Gan eiddiled y gefnogaeth, ac er rhoi cyfle i gynifer â phosibl i fynegi eu barn ar y bwriad, penderfynwyd gohirio'r drafodaeth a phwyso ar y pentrefwyr i wneud ymdrech arbennig i fod yn bresennol mewn Cyfarfod Cyhoeddus arall i'r un pwrpas, i'w gynnal yn Ysgol Gwaun Gynfi am 7 o'r gloch nos Fercher, Mai 24 1978. Mynnwch fod yn bresennol.**

**DIOLCH** — Dymuna Mr. a Mrs. Maldwyn Fretwell, 1 Stryd Gelert, Caernarfon, (gynt o Dŷ Capel Libanus, Clwt-y-bont) ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion oll am eu caredigrwydd pan anwyd eu mab Arwyn.

**LLONGYFARCHIADAU** — Carwn fel ardalwyr longyfarch Kenneth Jones, 2 Ffordd Teifion, Llanfairpwll, sef mab Mr. a Mrs. Tydfil Jones, 20 Rhydfadog ar ennill ysgoloriaeth Ph.D. mewn Gwyddoniaeth (Astudiaeth ar Blanhigion) ym Mhrifysgol Aberystwyth.

**TABERNACL (A.F.)** — Nos Iau, Ebrill 6 cafwyd noson ddifyr a doniol gan Mr. Ifor Bowen Griffith. Ei destun oedd "Dyddiau Ysgol". Bydd Noson Goffi yn cael ei chynnal yn Ysgol Gwaun Gynfi nos Iau, Mai 25. Dechreuir am saith o'r gloch. Bydd yr elw at y ddyled yn y Tabernacl.

**LLONGYFARCHIADAU** — i Meirion Williams, 3 Pentre Helen ar ennill belt oren yng Nghlwb Jiwdo Glannau Dyfrdwy.

**MERCHED Y WAWR** — Nos Lun, Ebrill 19 yn Ysgol Gwaun Gynfi treuliwyd noson ddifyr yng nghwmni Mr. Meurig Prydderch o Aberffraw yn canu i gyfeiliant ei gitâr. Roedd wedi cyfansoddi amryw o'r geiriau ei hun. Hefyd cafwyd adroddiad penigamp gan Mrs. Gwladys Evans. Roedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr. Dymunodd y llywydd Mrs. H. Sutherland benblwydd hapus i Mrs. E. Williams, 70 Pentre Helen, ar gyrraedd ei 80 oed yr wythnos cynt. Y gwestwragedd oedd Mrs. M. Thomas, Clwt-y-bont, Mrs. Lewis, Mrs. Jones, a Mrs. Eirlys Williams o Bentre Helen. Hwy hefyd a roddodd y raffl a enillwyd gan Mrs. Mair Morris. Dewiswyd Mrs. Gwen Rowlands a Miss Nansi Owen i gynrychioli y Gangen yn y Cyfarfod Cenedlaethol yn Aberystwyth ym mis Mai. Talwyd diolchiadau gan Mrs. Eirlys Williams. Dymuna'r gangen ddiolch yn gynnes i Miss Nellie Wyn-Jones, Dinorwig am ei rhodd. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, Mai 22 a disgwylir Mr. Dafydd Orwig i roi sgwrs.

# JOHN MORRIS

## ORIEL PENDEITSH, CAERNARFON
## 27 EBRILL – 19 MAI, 1978

**AM Y tair wythnos yn dechrau dydd Iau, 27 Ebrill, fe welir yn Oriel Pendeitsh, Caernarfon, gasgliad o ddyfrlyniau gan John Morris, brodor o Ddeiniolen, sydd wedi bod yn athro ac yn brifathro yng Ngogledd-Ddwyrain Cymru am yr ugain mlynedd diwethaf.**

Mae canfas eang i'w ddarluniau. Eryri ei faboed sy'n cael y sylw mwyaf, ac nid rhyfedd hynny hwyrach gan fod ganddo gysylltiadau agos â'r cylch o hyd – mae ei dad 90 mlwydd oed, Mr. Robert Morris, yn dal i fyw yn Neiniolen. Lluniau o Eryri yn y casgliad yw Gorlan y Bont (Deiniolen); Yr Wyddfa o Gapel Curig; Yr Wyddfa o Ddyffryn Mymbyr, a Chlegir (Llanberis).

### HYFRYDWCH

Yn wir, dywed yr arlunydd mai'r hyfrydwch pennaf iddo o hyd yw cerdded mynyddoedd Eryri a'i fod wrth ei fodd yn darllen iddo'i hun farddoniaeth T.H. Parry-Williams ac R. Williams Parry ar glogwyni serth, mewn cymoedd diarffordd, ac ar draethau tawel – "oes, mae rhai o'r rheini ar gael o hyd."

Mae'r arlunydd yn cael ei hudo'n arbennig i gofnodi ar ganfas "hen, hen lefydd" sy'n marw o fod. Meddai: "Llefydd fel Penrhyn Ucha', hen fferm ger Aberffraw, sydd fel pe•na bâi wedi'i chodi gan ddyn – mae fel pe bâi wedi digwydd bron fel gwawn unnos. Felly hefyd hen Eglwys Llangwyfan ym Môn sy'n y casgliad. Hudir fi hefyd gan erwau'r unigeddau gyda'r nos' fel yn y llun o'r Migneint."

### AWDUR

Yn wir, mae'r arlunydd hwn yn awdur hefyd. Hoffa grwydro – yng Nghymru, ym Mhrydain ac yn Ewrop, a chynnyrch y diddordeb hwn yw ei ddau lyfr – "Newid Aelwyd" a "Newid Bro". Mae awch John Morris am grwydro a theithio yn rhoi naws gosmopolitan bron i'w ddyfrluniau – rhai fel "Fenis"; "Entraveaux"; "Matterhorn"; "Rhondda" ( Sbaen); "Barfleur" (Normandy); "Loch Assynt" ac "Islay" (Yr Alban).

Gellir gweld casgliad John Morris o ddarluniau o Ebrill 27 hyd Mai 19 yn Oriel Pendeitsh, Oriel Arddangos Cyngor Sir Gwynedd, sydd ger y castell, Caernarfon. Mae'r Oriel ar agor bob dydd, Llun i Gwener, ac nid oes tâl am fynd i mewn.

# Pontydd saff o'r diwedd



Mae'n ymddangos oddi wrth y llun yma a dynnwyd gan ffotograffydd yr Eco fod cymhlethdodau Pontydd Rhythallt wedi eu datrys, a bod "rhywun" wedi cymryd y cyfrifoldeb. Cymerwyd camau i drwsio'r pontydd o'r diwedd.

# CYNHESRWYDD BRO

**YSTRYDEB bellach yw sôn fod "ein bröydd ar i lawr", a diau fod rhaid inni agor ein llygaid i'r ffeithiau wrth ystyried pa ddyfodol sydd i'r Fro Gymraeg. Ond cwbl wahanol yw wynebu gwanychiad ein hardaloedd, a phenderfynu eu hadfer, i sefyll ar lan eu beddau cyn pryd, a galaru uwch eu cyflwr heb wneud nemor ddim i'w coleddu a'u cynnal.**

**Ac er fod Dinorwig "i fyny yn y cymylau", chwedl Charles Hughes yn *Y Faner*, yna'n sicr nid yw pennau pobl y fro yn y cymylau. O leiaf mae yma heddiw, ar waetha'r holl ragolygon pryderus, garfan o gymrodyr ifainc sydd yn barod i wneud diwrnod da o waith er mwyn eu bro, a hynny yn nhraddodiad aruchel y gwŷr a fu gynt yn ysgwyddo beichiau eu cyd-chwarelwyr mewn dyddiau anodd.**

Brawdoliaeth yw craidd cymdeithas, a'r cydweithrediad naturiol, a di-ymffrost hwn yw sylfaen Adferwyr Bro Dinorwig. Daeth eu gobaith o'u cydweithrediad; canlyniad eu gobaith yw'r gweithgareddau. Ac nid oedd yr Ŵyl a gynhaliwyd yn y Ganolfan Gymdeithasol yn ddiweddar ond carreg filltir arall yn natblygiad a thwf y gobaith newydd. Nid oedd ond mynegiant i ddawn a gallu naturiol ein pobl. A dyna guddiad cryfder y gymdeithas Gymraeg, sef bod ei diwylliant ar daen drosti, ac yn ymagor yn ei naturioldeb di-ffwdan. Nid yn unig y mae'r iaith yn ein huno, ond mae'r diwylliant yn ein tynnu at ein gilydd, ac at ein gwreiddiau.

Nid bro'r erwau crintach a'r parlys cymdeithasol a fydd hon pe deuai ei phobl ynghyd dan faner eu brogarwch ac yn ysbryd antur-us ei hieuenctid ffyddlon. Pwy ŵyr beth fyddai'r canlyniadau pe blodeuai eu brogarwch yn benderfyniad di-sigl i warchod a chyfoethogi eu treftadaeth arbennig? Pwy feddyliai ddwy neu dair blynedd yn ôl y gwelid pobl ifanc yn tyrru i ddawnsfeydd yn Ninorwig, ac am Lyfr Bro yn gwerthu mil o gopïau ymhen dim o'i gyhoeddi? Na, mae hanes Dinorwig yn frith o ymdrechion gwrol dros gynnal y gymdeithas a swcro'r pethau gorau a berthyn iddi.

Yn ystod y Cload Allan yn Chwarel Dinorwig ar droad y ganrif, a'r gweithwyr yn wynebu ar gyfnod caled a di-obaith, fel hyn y canodd un o feirdd y fro i'w bobl:

**Gydwladwyr, a chyfeillion mwyn,**
**Nesewch i wrando ar ein cwyn;**
**Mae gorthrwm yn amdoi ein gwlad,**
**A ninnau'n teimlo min sarhad;**

**Ymdrecha troed gormesiaeth**
**Wneud sarn o'n hanibyniaeth,**
**A mathru ein dynoliaeth**
**Dan garnau trais a brad.**

**Mae gweld y Chwarel wedi'i chloi**
**Yn gwneud i'n holl obeithion ffoi;**
**Rhaid inni edrych ar ein plant**
**Yn hel eu bwyd o nant i nant;**
**A gweld ein mamau tirion**
**Yn llwydo dan drallodion,**
**A'n bechgyn ieuainc cryfion**
**Fel "myrtwydd yn y pant."**

**A raid i ni roi fyny'n llwyr**
**Bob peth sydd dynol? – Duw a ŵyr.**
**A raid i wŷr Eryri wen**
**Roi pridd a lludw ar eu pen,**
**Fel arwydd ymostyngiad**
**I draha ein huwchafiaid,**
**A llyfu traed estroniaid,**
**A dioddef mynych sen.**

**A oddef dewrion Cymru rydd**
**I Wŷr Eryri golli'r dydd?**
**A oddef calon fawr y wlad**
**Ymostwng dan y fath sarhad?**
**A mathru ein hiawnderau**
**Dan draed, a dwyn ein breintiau, –**
**Rhowch help i ddal ein breichiau**
**I fyny yn y gad.**

Na, ni fu farw'r ysbryd ym mro Dinorwig. Mae'r tân wedi ei ailgynnau yng nghalonnau'r ifanc,ac mae'r rhai hŷn yn ymfalchïo, ac yn gloywi yn y llewyrch.

*Ieuan Wyn,*
*Bethesda.*

**BETH AM GAIS I RYWUN YN YR YSBYTY YM MANGOR – Y C & A?**

Os hoffech chi anfon cyfarchion a dewis record ar gyfer perthynas neu gyfaill yn Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor, fe allwch wneud hynny drwy yrru'r cwpon isod i:
Radio C & A, Bangor – radio arbennig i'r ysbytyar nos Sul a nos Fercher.

Enw'r Claf . . . . . . . . . . . . . .
Cyfeiriad . . . . . . . . . . . . . .
Oed (tua) . . . . . . . . . . . . . .
Eich enw chi. . . . . . . . . . . . .
Eich cyfeiriad . . . . . . . . . . .
Pa record? . . . . . . . . . . . . .
Gyrrwch i:

**Radio C & A,**
**Ysbyty Môn ac Arfon,**
**Bangor.**


CYMDEITHAS AMAETHYDDOL GOGLEDD CYMRU
FFERM GLANRAFON, PONTRUG, CAERNARFON

**Dawns Ysgubor**

Nos Wener, 26 Mai am 8 o'r gloch
Grŵp "LEAGUE OF GENTLEMEN" Tocynnau £1
Bar ac ymborthiant
Manylion pellach: Ffôn - Llanberis 416

# GWRTHRYCHAU HEDEGOG

gan JOHN E. WILLIAMS, Y Gors, Pontrhythallt

**RHAID EDMYGU Mr. a Mrs. Glyn Roberts, Llanrug am eu diffuantrwydd yn cyhoeddi eu bod wedi gweld gwrthrych dieithr yn yr awyr. Tueddu i wawdio gwylwyr fel hyn y mae'r mwyafrif, na fyddant – a dyma'r gwir – byth yn syllu i'r wybrennau, ddydd na nos. Rhag gwawd, celais wybodaeth am weledigaeth ddieithr a gefais rhyw ugain mlynedd yn ôl yn yr un Dyffryn.**

Un cyfnos o Dachwedd yr oeddwn yn sefyll ger talcen tŷ yn Ninorwig mewn safle oddeutu pymtheg cant o droedfeddi uwchlaw'r môr. 'Roedd hi'n noson nodweddiadol o 'dachweddol'; caddug tros yr holl wybren, dim chwa o awel o unrhyw gyfeiriad, a tharth yn yr isel-leoedd. 'Roedd Glyn Rhonwy union gyferbyn â mi tros y llyn, ac i'r chwith 'doedd yna ddim ond ychydig lampau yn lleoli Llanberis. Cofier nad oedd yr adeg honno chwarter y goleuadau cyhoeddus sydd yn yr ardal honno yn awr.

'Roedd yna ambell i olau cerbyd yn mynd ar ffordd Penllyn, a meddwl wnes i am funud, mai un o'r rhain oedd y golau gwyn a welwn ar hynny yn dod i fyny o gyfeiriad Cwm-y-glo. Bûm am ychydig eiliadau cyn sylweddoli mai yn yr awyr yr ydoedd, yn teithio uwchben Llyn Padarn ac yn gyfochrog â'r Fachwen.

Fe gymerodd y golau amser i ddod gyferbyn â mi. Doedd dim modd iddo fod yn teithio'n gyflymach na phymtheg milltir yr awr, a phan ddaeth rhyngof fi a Glyn Rhonwy, yr oeddwn o'r braidd yn edrych i lawr arno, a gwelais yr adeg honno mai pledren glaer wen oedd hi o faint olwyn bws ar ei thraws debygwn i. 'Roedd hi beth bynnag yn rhy fychan o lawer i gynnwys daearolyn cyffredin, hyd yn oed yn ei ddyblau. 'Roedd yn amlwg hefyd fod yna olau gwyn cryf oddi mewn iddi, a beth bynnag oedd ansawdd ei phlisgyn, doedd yna 'run pelydryn lleiaf yn treiddio trwyddi i oleuo'r caddug oddi allan.

'Roedd y gwrthrych ynddo'i hun, fel y crogai uwchben y llyn yn syfrdanol, ond y peth a'm cynhyrfodd yn fwy na dim, oedd y ffaith bod ei hynt yn berffaith ddistaw – dim math o sŵn peiriant na dim arall. Cyffelybais symudiad y bledren yma wedyn i hedyn dant y llew yn hwylio ar awel araf . . . . . . . .

Serch hynny, 'doedd yna ddim amheuaeth nad oedd y bledren dan ryw reolaeth. Aeth yn ei blaen yr un mor ddistaw dros Lyn Peris ac am y Bwlch, ac yr oedd yn dringo erbyn hyn i ateb i godiad y tir. Aeth rownd y tro yn y Bwlch yn ddidramgwydd heb gyffwrdd â'r llethrau serth ar bob tu.

Bûm yn gwrando ac yn darllen y newyddion lleol yn ofalus yn y cyfnod hwnnw, ond 'chlywais i ddim fod neb arall wedi sylwi ar ddim anghyffredin yn Nyffryn Llanberis y noson honno o Dachwedd.

**Oes rhywun arall wedi cael profiad o'r fath? Peidiwch ag ofni ei gyhoeddi yn yr Eco! – Gol.**

# CWM Y-GLO

**GWASANAETHAU'R PASG** – Caed cynulleidfaoedd da iawn yng ngwasanaethau'r Groglith a'r Pasg. Arweiniwyd yr holl wasanaethau gan y Rheithor. Miss C. Hughes oedd yr organyddes.

**UNDEB Y MAMAU** – Cyfarfu aelodau Undeb y Mamau yn yr Ysgol Gynradd ar Ebrill 11 o dan lywyddiaeth Mrs. Williams, y Rheithordy. Agorwyd y cyfarfod trwy weddi gan y Rheithor. Miss Ceridwen Hughes oedd y cyfeilydd. Rhoes y Rheithor sgwrs ar drin blodau a dangosodd sut i wneud rhai addurniadau. Diolchwyd iddo gan Mrs. Orritt a Mrs. Owen. Y gwestwragedd oedd Mrs. M. E. Hughes, Craig y Don a Mrs. L. Jones, Fron Gader. Diolchwyd iddynt gan y Rheithor. Terfynwyd trwy weddi.

**MARWOLAETH** – Wedi cystudd hir bu farw Miss E.G. Morris, Bron Eryri yn Ysbyty Gallt y Sil, Caernarfon. Yr oedd yn enedigol o Gwm-y-glo, yn ferch i'r diweddar John T. Morris a'i briod Jane Morris. Yr oedd yn 84 mlwydd oed.

Bu Miss Morris am flynyddoedd gyda theulu ym Mheriw, De America ac yna gydag aelodau o'r un teulu yn yr Yswistir. Byddai yn dod adref am wyliau bob blwyddyn ac yn dychwelyd i'r Yswistir. Yr oedd yn wraig fonheddig ac iddi addfwynder eithriadol, ac yr oedd ganddi hiwmor iach. Byddai direidi lond ei llygaid ar brydiau, hyd yn oed yn ei chystudd. Bu ei harwyl ddydd Sadwrn, Ebrill 1 ym mynwent Eglwys Sant Mihangel Llanrug. Gwasanaethwyd yn yr eglwys ac ar lan y bedd gan y Rheithor y Parch. D. Gwynfor Williams, y Parch Ganon Alun Jones, Llanberis, y Deon Gwlad, a chan y Parch. E. T. Jones, Ficer Caernarfon. Cydymdeimlir yn fawr â'i hunig chwaer, Mrs. L.C.Higgin Higgins, Bron Eryri a'i dau frawd, Mr. J.M.Morris, Llanberis a Mr. T. Morris, Caernarfon. Bu gwasanaeth coffa i Miss Morris yn Eglwys Sant Gabriel ar nos Sul, Ebrill 8 ac arweiniwyd y gwasanaeth gan y Rheithor.

**SIOE NEFYN** – Llongyfarchiadau calonnog i Mr. Geraint Pritchard, Bryn Difyr, ar gael ei ddewis yn feirniad ar y bwjis a'r adar tramor yn Sioe Nefyn yn ddiweddar. Mae Mr. Pritchard, sydd eto ond gŵr ifanc, wedi ymddiddori ac wedi bod yn llwyddiannus iawn mewn bridio bwjis ers yn fachgen. Cafodd dau arall o'r Cwm amryw wobrau yn yr un sioe, sef Mr. W.E.Evans, Pen Bwlch ym myd y da pluog, a Mr. Gwilym Williams, Ddol Bach gyda'i gwningod. Llongyfarchion a llwyddiant pellach fo iddynt.

**CROESO'N ÔL** – Da gennym weld Prifathro'r Ysgol Gynradd, Mr. Eurwyn T. Jones, wedi gwella'n ddigon da i ailddechrau ar ei orchwylion. Bu Mr. Jones gartref ers yr haf diwethaf.

**CYFARCHION PEN-BLWYDD** – Anfonwn gyfarchion pen-blwydd (yn 95 ar Ebrill 25) i Miss Blodwen Williams, Afallon, sydd ar hyn o bryd yng Nghartref Maesincla. Pawb o'r Cwm yn falch eich bod yn gwella, ac i gyd yn dymuno "Pen-blwydd Hapus" i chi Miss Williams.

**COLLI ANWYLIAID** – Tristwch i ni oedd clywed am farw Mrs. Helen Angell Jones, priod hoff y Parch. G. Angell Jones, gweinidog olaf capel M.C. Cwm-y-glo. Yn wraig siriol ac annwyl llanwodd ei lle fel gwraig gweinidog i'r ymylon. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i phriod, ac â'r mab a'r teulu yn eu profedigaeth.

Wedi gwaeledd maith collwyd un o blant y pentref ym marwolaeth Miss Annie Thomas, Eryl, Craig y Don, yn Ysbyty Gallt y Sil. Derbynied ei chwaer, Mrs. R. Pritchard a'r teulu ein cydymdeimlad.

Mae ein meddyliau hefyd gyda Miss M. Owen a Mrs. Griffiths, Ashville a phawb o'r teulu, yn eu trallod o golli eu brawd tirion, Mr. Owen Emlyn Owen, Caeathro (Pen Gwaith, Clegir gynt), hefyd Mrs. Mattie Jones, 11 Dôl Afon, ei chwaer yng nghyfraith.

Chwith fu deall am y brofedigaeth a ddaeth i ran Mr. a Mrs. Maurice Jones, Meillionen ym marwolaeth ddisyfyd brawd Mr. Jones, sef yr annwyl Barchedig John Owen Jones. Ein cydymdeimlad diffuant eto â'r teulu, ac yn arbennig a mam Mr. Jones.

**COFIWCH !** – Er nad oes nyrs yng Nghwm-y-glo, peidiwch â phoeni, anfonwch at Evan Owen ac Arthur Vaughan Williams. Byddant yn barod bob amser i helpu. Gwnaethant waith ardderchog yn Bryn; bedyddiwyd yr oen yn Evan Arthur.

# *Brwynddail y Mynydd – Lili'r Wyddfa*

Yn uchel yn yr Alpau, y Rockies a mynyddoedd yr Himalaya y mae blodyn gwyn yn debyg i lili fach, gyda dail cul gwyrddion i'w weld. Tyf hwn hefyd ar yr Ysgolion Duon, Cwm Idwal ac yn ein bro ni yng Nghwmglas ac ar Glogwyn Du'r Arddu. Nid yw'r blodyn hwn ar gael yn unman arall ym Mhrydain. Dywedir ei fod yma cyn Oes y Rhew ac wedi parhau ar greigiau calchog tua 2500 troedfedd i fyny yn Eryri.

Erbyn hyn daw dringwyr di-rif i glogwyni 'mochel y *Lloydia* a glanhau'r graig o dyfiant er mwyn hwyluso'r dringo. Felly mae perygl i ddyfodol ein blodyn arbennig.

Am ryw bythefnos ym mis Mehefin mae'r Brwynddail ar ei orau yn ei loches gyda'r blodau hynod yn weddol amlwg. Ar ôl amser blodeuo anodd yw ei adnabod gan fod ei ddail yn debyg i fân laswellt.

Rhoddwyd yr enw Lladin *Lloydia* arno er clod ac anrhydedd i Edward Llwyd. Cymro, ysgolhaig, naturiaethwr, teithiwr ac archaeolegwr yn byw yn yr ail ganrif ar bymtheg.

(Y mae ein bro ni yn lloches i bethau diddorol, unigryw, gwerth eu cadw, fel y Torgoch, y *Lloydia,* ac o feddwl, yr iaith Gymraeg hefyd. Y mae dyfodol y tri mewn perygl enbyd).


**GORS BACH PANEL BEATING SERVICE**
**Cwm-y-glo**



Ffôn : LLANBERIS 814

GWASANAETH TORRI-LAWR 24 AWR



**Gwesty Dolbadarn**

Tŷ Rhydd-Feddiant


**Llanberis**

FFÔN : LLANBERIS 277

Perchennog Aneuryn Jones

MAN DELFRYDOL I BARTI PRIODAS NEU GINIO BLYNYDDOL

Hefyd CANOLFAN DRECIO
Holwch am ein telerau rhesymol



# SIBRYDION O'R YSGOLION



TÎM YSGOL DOLBADARN

*Mae'r tîm wedi cyrraedd rownd derfynol cwpan 5 bob ochr yr Urdd, Sir Eryri. Yn y rowndiau blaenorol, curwyd Ysgol Hirael, Bangor o 8 gôl i 6, ac Ysgol Llangybi o 10 gôl i 3. Pob lwc i'r bechgyn yn y 'ffeinal' a chwaraeir yn y dyfodol agos yn erbyn Ysgol Nant y Coed, Cyffordd Llandudno. Hyfforddwyd hwy gan Mr. Iwan Roberts.*

*Rhes gefn: Steven Thomas, David Evans. Rhes flaen: Nigel Roberts, Garry Wakeham, Iwan Pritchard.*


CYMDEITHAS AMAETHYDDOL GOGLEDD CYMRU

## MABOLGAMPAU ERYRI

SADWRN, 3ydd MEHEFIN

CAE DDÔL GOEDEN, LLANBERIS

MABOLGAMPAU
DOSBARTHIADAU MARCHOGAETH A NEIDIO
GWISG FFANSI DAN GYFRWY
CYSTADLAETHAU OEN A MYN LLYWAETH
GORYMDAITH CEFFYLAU GWEDD

**Gwisg Ffansi i drigolion ardal Llanberis yn unig**
**12 oed ac oddi tan; 13 – 17 oed; dros 17 oed**

LLUNIAETH AR WERTH YN Y GANOLFAN

*Mynediad: Plant 10c; Oedolion 30c*

Manylion pellach i'w cael gan yr ysgrifennydd:
Mrs. Miriam Hughes, 'Rallt Deg, Cwm-y-glo, Caernarfon
Ffôn: Llanberis 416

***Rhaglen ar gael – Amlen wedi ei stampio os gwelwch yn dda***


## Arddangosfa Ysgol Brynrefail yn Oriel Pendeitsh

*(LLUNIAU – IEUAN OWEN)*



***Rhai o ddisgyblion Ysgol Brynrefail yn ymweld ag Arddangosfa Ddarluniau Plant y Western Mail yn Oriel Pendeitsh, Caernarfon, ddydd Gwener diwethaf. Goreuon cystadleuaeth ar gyfer Cymru gyfan oedd yn yr Oriel a llwyddodd 3 disgybl o Ysgol Brynrefail i gael arddangos eu cynnyrch.***



*Julie Leatherbarrow wrth ymyl y llun o'i heiddo yn yr arddangosfa.*

### YSGOL GYNRADD PENISARWAUN

**YR URDD** – Bu saith o aelodau'r Adran yn bwrw Sul yng Ngwersyll Glanllyn yr wythnos diwethaf. Cafwyd tywydd braf a chwmni plant o rai adrannau eraill ym Môn ac Arfon.

**GENEDIGAETH** – Balch oeddym o glywed am enedigaeth merch fach i Mrs. Iola Grisdale, athrawes yn yr Ysgol.

**CLWB SANT IOAN** – Dylan Williams, Bryn Eglwys enillodd y cwpan fel yr eilydd gorau yn y gystadleuaeth yn Llanfairfechan yn ddiweddar. Llongyfarchiadau.


## GWILYM JONES
## Monumental Works
## LLANRUG

**Gwaith Coffäol o bob math**
**mewn llechi a gwenithfaen gan**
**grefftwyr lleol**

**FFÔN**
**CAERNARFON 2898**

# Agor Ffiniau'r Gorffennol

gan Mary Lloyd Williams, BEM

## DEUGAIN TUNNELL O LYFRAU

**FEL LLYFRWERTHWR poblogaidd y cofir yn bennaf am y diweddar J.R.Morris, Hafod Lên, Bethel, cyn-aelod o Gapel Tan-y-Coed M.C., Llanrug. Pan yn ymddeol o'i siop yng Nghaernarfon yn 1966 clywais fod ganddo ddeugain tunnell o lyfrau. 'Roedd J.R. yn gwybod cynnwys pob llyfr oedd yn ei feddiant. Heb os, gellir dweud iddo gyflawni gwrhydri. Gellir ei restru ymysg rhai o "wŷr mawr" bro Eryri. Y mae'r holl fanylion am ei fywyd a'i hanes yn ei lyfr *Atgofion Llyfrwerthwr* a gyhoeddwyd yn 1963. Bu farw yn 1970 yn 91 mlwydd oed. Cadwodd ei hun yn ifanc i'r diwedd trwy ddiwydrwydd.**

Fu neb erioed prysurach na J.R. "ar hyd y daith". Byddai'n darllen pob papur newydd Cymraeg, pob llyfr Cymraeg, yr oedd yn sgwrsiwr heb ei fath, yn sgrifennu erthyglau, yn barddoni, cadw coflyfrau a chadw 'scrap-books' o bethau diddorol a gwerthfawr. Casglodd ddeugain mil o enwau tai a ffermydd yn Gymraeg (Y mae'r casgliad yn y Llyfrgell Genedlaethol Aberystwyth). Byddai'n trin yr ardd a phlannu llysiau, ymlid cathod, lladd pryfetach ac ateb llythyrau (pob llythyr rhyw hanner dwsin o dudalennau). Wedi colli ei annwyl briod oddeutu 1954 daeth yn arbenigwr ar wneud bwyd a thrwsio 'sanau, a gwnâi gant a mil o bethau eraill.

Ar y drws cefn yr oedd wedi sgwennu fel hyn "Os Cymro ydych yn caru'r iaith, cenwch y gloch dair gwaith." Fyddai o ddim yn trafferthu i agor y drws os na chlywai dair tinc ar y gloch – yn y blynyddoedd olaf, wrth gwrs, Bob tro y gelwais i weld J.R. awn allan yn gyfoethocach mewn gwybodaeth. Collodd ei ddau blentyn. Bu farw Jane ei ferch yn wyth oed a bu farw'r mab yn flwydd.

Ar fferm yn ardal Dinorwig y cychwynnodd J.R.Morris ei yrfa, fel gwas bach. Ef oedd yr hynaf o un ar ddeg o blant. Rhaid oedd i'r hynaf droi allan i weithio yn yr oes honno. Ymhen dwy flynedd, pan oedd yn dair ar ddeg oed gadawodd y fferm a mynd i'r chwarel. Bu yn y chwarel am chwe mlynedd. Symudodd i'r pwll glo, wedyn i Ashton in Makerfield.

Yr oedd tair eglwys Gymraeg yn Ashton y pryd hynny a llewyrch da ar fywyd Cymreig. Yr oedd yn aelod o'r Côr Cymysg gan ei fod yn gerddor da iawn – gelwid ef 'Yr Eos'. Canai denor. Daeth yn arweinydd côr plant, yn athro yn yr Ysgol Sul, yn ysgrifennydd eisteddfodau ac yn amlwg iawn mewn amrywiol gylchoedd. Ymhyfrydai yn y ffaith iddo fod yn dysgu Gordon Macdonald a ddaeth wedi hynny yn Arglwydd MacDonald o Waunysgor. Gallai J.R. gofio y tri brawd yn gweithio yn y pwll glo – Emlyn a aeth i'r weinidogaeth, Albert a'i cymhwysodd ei hun yn athro, a Gordon a enillodd sedd yn y Senedd "am ddadlau achos yr hogia". O Ashton aeth J.R. i Lerpwl. Bu'n gweithio sbel gyda chyfanwerthwr celfi haearn; wedyn bu'n gweithio gyda chwmni yswiriant. Cyfarfu â Rolant Wyn, ewythr Hedd Wyn.



Rolant Wyn a gadeiriwyd yn lle Hedd Wyn yn Eisteddfod y Gadair Ddu fel y cofiwch.

Penderfynodd sefydlu busnes gwerthu llyfrau Cymraeg. Gallaf ei gofio ef a'i wraig yn dwad i Gaernarfon yn 1933. Yr oeddwn yn y siop y diwrnod cyntaf yr agorwyd hi, ar gongl Stryd y Farchnad. Symudodd wedyn i siop yn ymyl y Maes yng Nghaernarfon. Eric Jones yw perchennog y siop heddiw.

Byddai gan J.R. englyn neu soned "ar y gweill" yn barhaus. Enillodd 18 o gadeiriau am farddoni; coron yn Eisteddfod Cemaes, Môn ac enillodd fedal arian. Yr oedd Mrs. Morris ei briod yn fardd medrus hefyd. Anfonodd J.R. yr englyn canlynol i Meuryn:

**BORE O HAF**

**Dydd melyn a'r glyn yn glws – gan yr haul;**
**Gwena'r ŷd a'r tatws;**
**Dyri y dryw drwy y drws,**
**A haid uwchben o ddrudws.**

Dyma a ddywedodd Meuryn "Diolch am eich englyn. Yr ydych wedi codi hiraeth arnaf am yr haf. Ond cofiwch na welais i erioed datws yn gwenu!" 'Doedd neb yn mwynhau'r hwyl yn fwy na J.R.Morris ei hun.


*W.J.GRIFFITH*
PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG
*Ffôn: Caernarfon 3248*
GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW
BP heat
A SHELL-MEX
BP
FEDERATION OF MASTER BUILDERS

*Dim un dasg rhy fychan.*
*Dim un dasg rhy fawr.*




# HANES C


**NEILLTUWN y tudalen canol y tro hwn i ganolbwyntio ychydig ar hanes Cwm.**

Yn "Hanes Methodistiaeth Arfon" gan William Hobley, ceir cyfeiriad at hanes dechrau'r achos Methodistaidd yng Nghwm-y-glo. Yn ôl yr hanes, ceir fod "lle go anystywallt yma er adeg agor y ffordd fawr yn 1828." Mae'n nodi dau deulu o "gewri", sef teulu'r Bryn a theulu'r Bwlch – rhai parod i ymladd wedi "cyffroi o'u nwydau gan gwrw a hyfdra." O'r cyfnod hwn hyd ddiwygiad 1859 bu deng mlynedd ar hugain pur gyffrous. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'n bosibl, y bu ffyniant ar werthu cwrw yn y pentref. Adeiladwyd llawer o dai yma ers 1828, agorwyd rhai tafarnau a deuai'r mwynwyr o'r gwaith copr yma.

Yn 1838 y sefydlwyd y capel yng Nghwm-y-glo, er fod Ysgol Sul wedi'i chynnal yma mae'n debyg ers tua 1822. Rhif aelodaeth y capel hwn oedd tua 26 i 30. Erbyn 1841 yr oedd y rhif wedi cynyddu i 65 i 70. Yn 1854 adeiladwyd y capel Annibynwyr. Yn 1858 rhif aelodaeth capel M.C. oedd 92. Felly hyd yma, o fewn rhyw ugain mlynedd mae rhif y capel wedi cynyddu o tua 60.

Tua 1830 bu Diwygiad Dirwestol. 'Roedd cymdeithasau cymedroldeb wedi eu cychwyn ynghynt, ond yn 1835 ffurfiwyd Cymdeithas Ddirwestol Gymreig. Yr oedd llyfr ar gael yn rhoi cofnodion am Gymdeithas Gymedroldeb Llanrug yn 1834. Anodd gwybod pa mor gymedrol oedd y cymdeithasau hyn, oherwydd yng nghofnodion Cyfarfod Misol ar ddechrau 1835 ceir rhestr o nwyddau y bu'n rhaid talu amdanynt: peint o Rum 1/9, Cwrw 12/- a diod fain 10/-. Hyn ar ôl sefydlu Cymdeithas Cymedroldeb ond cyn y Gymdeithas Ddirwestol.

Ond nid meddwdod oedd yr unig bechod yn y cyfnod hwn; 'roedd defnyddio cyffuriau hefyd yn weddol gyffredin. Ym mhapurau wythnosol y cyfnod ceir adroddiad am 60 o forynion o dref Caernarfon yn ystod 1840 yn pwrcasu cyffur o'r enw "lodnwm" bob nos Sadwrn er mwyn gwneud yn siŵr fod y babis yn eu gofal yn cysgu! Ac yn 1849 ceir rhybudd gan y Dr. O. O. Roberts ynglŷn â'r arfer hwn: "Within many localities in North Wales, the use of opium and other narcotic drugs in various forms, as a stimulus and substitute for fermented liquor, has of late years been rapidly and extensively gaining ground . . . the indiscriminate use of such poisonous narcotics by unprincipaled and ignorant parties, to lull infants and to keep young children quiet, as it is called, has become a notoriously common practice."



*Cwm-y-glo ar ddechrau'r ganrif. Llun trwy gar*



*Criw wedi ymhel tu allan i hen neuadd Cwm garedigrwydd Mr. Ted Roberts, Rallt Goch.*




*Band Llanrug, Llanberis, ynteu Deiniolen, yn Roberts.*



*Oeddech chi yno? Un o garnifallau mawr Cwm Roberts.*

# WM~Y~GLO



grwydd Mr. John Williams, St. Lambert, Canada





groesawu Mr. a Mrs. Alves, Bryn Bras. Llun trwy



hwarae ar yr un achlysur â'r uchod. Llun: Ted



-glo. Pa bryd? Oes rhywun yn cofio? Llun: Ted

Y mae cyfrifiad y Llywodraeth am y flwyddyn 1851 yn un pur gynhwysfawr, gan nodi enwau pawb, eu plwyfi genedigol, a'u gwaith. Y mae'r cyfrifiad yn nodi'r canlynol am Gwm-y-glo:

(a) Bulkeley Arms – Victualler and Alehouse Keeper. 'Roedd y gŵr a'r wraig rhwng 40 a 50 oed, a chanddynt fab a merch. 'Roedd morwyn yno hefyd, o dan 20 oed; ac un plentyn arall dan 10 oed.

(b) Blue Bell – Victualler. 'Roedd y gŵr a'r wraig rhwng 30 a 40 oed, a chanddynt ddau fachgen dan 10 oed. Dim morwyn.

(c) Glyn Padarn – Innkeeper. Gwraig weddw rhwng 40 a 50 oed oedd yn byw yma, ac yr oedd morwyn ddibriod rhwng 20 a 30 oed yn ei helpu.

(ch) Temperence Hotel. Gwr priod (70 –80 oed) a'i wraig (50 - 60 oed) a'i cadwai, ac yr oedd morwyn ddibriod (20 - 30 oed) yn eu helpu.

Sylwer fod gwahanol dermau yn cael eu defnyddio am y tair math o dafarn; Victualler – gallai werthu gwirod. Alehouse – gwerthu cwrw. Innkeeper – gwerthu cwrw; hefyd lle i aros.

Yn 1859 bu diwygiad crefyddol yn yr ardal, ac yn ôl William Hobley, 'roedd yr effaith yn gryf yn ardal Cwm-y-glo. Yn 1858, rhif yr eglwys oedd 92. Erbyn 1860 'roedd y rhif yn 172; cynnydd mwy mewn dwy flynedd nag a fu er dechreuad yr achos yno. Ond erbyn 1866 'roedd rhif yr eglwys wedi disgyn yn ôl i 140.

Yn 1889 - 90 cyhoeddwyd Sutton's North Wales Directory. Ynddo ceir y rhestr ganlynol – Llanrug – one inn – 'Glyntwrog'. One temperance inn – 'Ynys-wen Arms'.
Pontrhythallt – one inn – 'Rhythallt Hotel'.
Cwm-y-glo – four inns, ond yn anffodus ni roir enwau – tybed ai'r pedair oedd yno yn 1851 ydynt?

David Whiteside.

## HANESYN DIDDOROL

Dyma hanesyn diddorol gan Mrs. E. Hughes, Bryn Hyfryd, Y Groeslon: "Gwelodd merch Megan Griffiths, Foelas, Cwm-y-glo, a fu'n gweithio yn Johannesburg, garreg fedd yn y Transvaal ac arni'r geiriau hyn:

*Henry Roberts*
*Cwm-y-glo*
*Caernarvonshire, North Wales*
*Born Jan 11th 1875*
*who met with a fatal accident*
*in Jubilee Mine, March 9th, 1906*
*Aged 31 yrs.*

*i'n ofalus, nef wylio – fro dy hun,*
*Frawd annwyl daw etto*
*I Affrig draw i'th ddeffro*
*Â'i law gref o'th wely gro.*

*Mab a brawd annwyl iawn*
*A milwr da i Iesu Grist.*

## I FECHGYN CWM-Y-GLO

**sydd wedi mynd i wledydd tramor**

**Llawn o hiraeth yw fy nghalon**
**Am gyfeillion mwynion mad,**
**Dros y moroedd anturiasant**
**Draw ymhell o dir eu gwlad.**

**Cymeriadau gwreiddiol, doniol**
**Y'u cyfrifid yn y fro;**
**Ac amdanynt yn feunyddiol**
**Llaith yw llygaid Cwm-y-glo.**

**Dyma'r rhestr, gwnaf eu henwi:—**
**Richard Roberts o Mur Moch,**
**Hawddgar frodyr Hugh a Guto,**
**Wil Tangraig a Jack Rallt Goch.**

**Thomas John a Guto Edward,**
**Morgan Roberts chwim ei droed,**
**William Owen, Dick a Harry,**
**Bechgyn gwrol Llwyn y Coed.**

**Twm bach Smith ac Owen Trevor,**
**Johnnie Jones ac Evan bach,**
**Morris Pritchard, Tommy 'Raber,**
**Mi obeithia'ch bod yn iach.**

**Dafydd Jones a Morris Williams,**
**Dau o fechgyn ieuanc llon,**
**Willie Williams a Jack Roberts,,**
**Harry bach a Jack Craigdon.**

**Owen Davies a Dick Edward,**
**A Hugh bach – nid bach i'n serch.**
**Atgof beunydd o'u hwynebau,**
**Wibia dros y tonnau erch.**

**Jack y Glyn a Dafydd Simon,**
**Ellis bach a Bob Tangraig,**
**A John Green sydd ers blynyddau**
**Wedi croesi tonnau'r aig.**

**Griffith Davy a Ned Owen,**
**Owen Henry a'r Hen Sam,**
**Johnnie Llwyncoed, Twm Bryn-ffynnon,**
**Duw a'ch ceidw rhag pob cam.**

**Willie Hughes a Tommy Pickering,**
**Hughie Jones, fy annwyl ffrynd,**
**Ar eich hôl mewn ing a hiraeth**
**Mae fy nghalon wedi mynd.**

**Hughie Hughes a Tommy Rowlands,**
**Daniel Evans Tanyrhiw,**
**Ellis Williams, pawb o'm cyfoed,**
**Rhodiwch lwybrau santaidd Duw.**

**'Rwy'n gobeithio eto'n fuan**
**Cewch ddychwelyd i'r hen fro,**
**Fel y byddwn eto'n ddedwydd**
**Ar hen fryniau Cwm-y-glo.**

**Er ymhell o dir eich cartref,**
**Er ynghanol estron lu,**
**Er mwyn tyner serch, O peidiwch**
**Anwybyddu'r ardal gu.**

*Owen H. Jones,*
*New Street, Cwm-y-glo.*

*Ysgrifennwyd yn 1908. Gyda diolch i Mrs. H. Thomas, 8 Maes Padarn, Llanberis am y geiriau.*

## ATGOFION MEBYD am GWM-Y-GLO

Wyt ti'n cofio'r adeg dedwydd
Pan yr oeddym ni yn blant,
Ac yn chwarae'n ysgafn galon
Rhedeg dros bob bryn a phant,
O! mae'r amser dedwydd hwnnw
Eto'n fyw gerbron fy nghôl
Pan yn myned gyda'n gilydd
I hen ysgol Cwm-y-glo.

Wyt ti'n cofio fel y byddem
Yn pysgota ar y llyn,
Tra'r oedd Natur ar ei gorau
Yn prydferthu pant a bryn;
'Rhen gwch mawr yn rhwygo'r tonnau
Ninnau'n rhwyfo gyda'r gwynt
O! mor felys ydyw cofio
Am yr amser dedwydd gynt.

Mynd yn llu o glogwyn Llwyncoed
I fwynhau yr awel iach,
Ymddifyrru mewn chwaraeon
Ar hen greigiau Penbwlch Bach;
Mynd ar brydiau i ymdrochi
I ryd mawr a'r adwy ddŵr,
Ac ymwisgo yng nghraig yr Undeb
Pawb yn llon a llawn o stŵr.

O! mae hiraeth yn fy nghalon
Wrth atgofio'r bechgyn llon,
Fel y byddem gyda'n gilydd
Ar heolydd Craig-y-don;
Dringo i fyny twll y gigfran
Oedd yn gamp i fawr a mân;
Roedd i ni rhyw swyn cyfriniol
Yn hen glogwyn Carreg Frân.

Ar ganllawiau Pont yr Aber
Bûm yn treulio llawer awr,
Gwrando murmur lleddf yr afon
Ar ei thaith o'r llyn i lawr;
Mi gawn yno deg olygfa
Ar y bryniau o bob llaw,
A'r hen Wyddfa fawr ramantus
Welwn yn y pellter draw.

Mae'r hen fryniau tlws a'r llwybrau
Yno'n aros megis cynt,
Ninnau fu yn llamu drostynt
Chwalwyd oll i'r pedwar gwynt.
Byw mewn gobaith 'rydwyf heno
Er yn brudd mewn hiraeth trwm,
Y daw amser caf ddychwelyd
I hen bentref bach y Cwm.

*Owen H. Jones.*
*Astoria, Efrog Newydd.*
*(Y geiriau trwy law Mrs. Jennie Evans, Plas Pengwaith)*


**Simneiau glân am bris rhesymol gan**



*Defnyddir peiriant sugno i lanhau*

# G. LLOYD

**4 PLAS TIRION TERRACE,**
**LLANRUG**

*Ffôn: Caernarfon 4781*

# PENISAR WAUN

**IOLA WILLIAMS** – Balch oedd gennym glywed bod Iola wedi gwella ar ôl bod yn yr ysbyty ym Mangor yn cael triniaeth llawfeddygol.

**LLION ROBERTS** – Llion yw enw mab bach newydd Mr. a Mrs. G. Roberts, 6 Bryn Eglwys.

**MR. H. HUGHES** – Trist oedd clywed am farwolaeth un o grefftwyr y fro,sef Mr. Hughes. Fel y mae'n hysbys i bawb yr oedd yn grefftwr arbennig o dda gyda gwydr. Bu farw yn ei gartref ym Mae Colwyn – aeth yno i fyw o'i gartref 'Bryn' yn Racca tua bythefnos yn ôl. Mae ein cydymdeimlad gyda Mrs. Hughes a'r teulu i gyd.

**PWYLLGOR LLEOL YR EISTEDDFOD** – Mae'r Pwyllgor Lleol erbyn hyn wedi trosglwyddo £300 i Swyddfa'r Eisteddfod yng Nghaernarfon. Cofiwch am yr Helfa Drysor nos Fercher, Mai 24! Cysylltwch ag aelodau'r Pwyllgor am fanylion pellach.

**SEFYDLIAD Y MERCHED** – Ymwelodd nifer o'r aelodau â Theatr Gwynedd yn ddiweddar i weld perfformiad gwych gan y cwmni o 'Hanner Munud'. Mwynhawyd y noson yn fawr. Gwnaethpwyd camgymeriad yn y rhifyn Mawrth o'r Eco – Mrs. Glenys Williams oedd yn gwneud y te yn y Sefydliad gyda Mrs. Mary Davies ac nid Mrs. Elinor Jones. Derbyniwch ein hymddiheurad Glenys.

**EGLWYS ST. HELEN** – **(Undeb y Mamau)** – Cafwyd y cyfarfod blynyddol ym mis Mai, ac ail-etholwyd y swyddogion. Cofrestrydd: Mri B. Edwards, Y Ficerdy; Ysgrifenyddes: Mrs. M. Davies; Trysoryddes: Mrs. O.C Roberts.

Yng nghyfarfod mis Ebrill y gŵr gwadd oedd Mr. Tegid Roberts, Arwel. Dangosodd ffilmiau ac adroddodd ei hanes yn yr Almaen. Diolchodd Mrs. B. Mowll iddo. Balch oeddem o gael Mrs. O. Thomas yn ôl ar ôl ei gwaeledd a chroesawyd Mrs. Nesta Jones.

Bu farw un aelod, sef Mrs. Bellis, Efail Newydd, a rhoddwyd dau lyfr gweddi i'r Eglwys er cof amdani. Cydymdeimlwyd a Mrs. Rose Jones, Mrs. B. Mowll, Mrs. T. Evans, Mrs. M.J. Roberts, Tai Croesion yn eu profedigaeth.

Rhoddwyd y te gan Mrs. O.C. Roberts a Mrs. M.J. Roberts. Diolchodd Mrs. B. Edwards iddynt.

**(Festri'r Pasg)** – Cafwyd y festri, nos Lun, Ebrill 3. Diolchodd y Ficer i bawb am ei waith trwy'r flwyddyn, ac ail-etholwyd y wardeiniaid, Warden y Ficer: Mrs. M. Davies a Warden y Bobl Mr. Tegid Roberts (Arwel).

**Bedyddiwyd** – Owen Jasper Turner ar y Sul ar ôl y Pasg gan y Ficer. Mab bach ydyw i Mr. a Mrs. R. Turner, Tyddyn Difyr, y Waun.

**Llongyfarchiadau)** – i Mr. Selwyn Griffith, 5 Bryntirion a oedd yn un o'r tîm o'r Coleg Technegol a enillodd mewn cystadleuaeth fecanyddol. Hwyl fawr eto yng Nghaer.

**(Trip Ysgol Sul)** – Bydd trip y flwyddyn hon yn mynd i ymweld ag Eglwys Gadeiriol Coventry. Os oes rhywun gyda diddordeb, gofynnir iddynt fod mor garedig â rhoi eu henwau un al i Miss G. Griffith neu Mr. Elfyn Griffith, cyn gynted â sydd bosibl.

**CWN YN LLADD OEN** – Lladdwyd oen bach gan gŵn yn un o gaeau Bryn Rhydd Mawr, fore Llun, Ebrill 17. Gwelwyd dau gi yn y cae tua'r un adeg.

**CROESO ADREF** – i Alun Hughes, mab Mr. a Mrs. E. Hughes, 12 Bryn Eglwys, sydd wedi cyrraedd adref ar ôl bod yng Ngogledd America yn teithio o gwmpas. Treuliodd Alun beth amser ym Mharc Cenedlaethol Yosemite yn dringo rhai o'r clogwyni byd-enwog. Uchafbwynt ei arhosiad yno oedd treulio 3½ diwrnod yn dringo wyneb gogleddol El Capitan. Croeso cynnes i ti, Alun, a dyma gyfle hefyd i groesawu dy rieni er iddyn nhw symud i Benisarwaun o Lanberis rai misoedd yn ôl.

**LLONGYFARCHIADAU** gwresog i Anwen Jones, Meillionydd oddi wrth bawb yn y pentref.

**FFAIR SBORION** – 'Roedd y Ffair Sborion a gynhaliwyd yn yr Ysgol Gynradd fore Sadwrn, Ebrill 22 yn llwyddiant mawr. Diolch i bawb am eu cefnogaeth ac am sicrhau elw o £50 tuag at gronfa'r Eisteddfod Genedlaethol.

# LLYFRAU

**CARCHAR** – *Meg Elis.*

Mae 'na fwy na barrau a waliau yn carcharu pobl. Gall rhywun gael ei gaethiwo gan gonfensiwn, gan henaint a chan bobl eraill – yn ogystal â chan yr hyn sy'n gyffredin iawn i Gymry y dyddiau hyn – carchardai a deddfau Lloegr.

Tarddu o brofiad mewn carchar a wnaeth y storiau hyn, ond fe'u hysgrifennwyd, a'u cyhoeddi mewn carchar.

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan *Lolfa.* **Pris 85c.**

# YM MYD MODURO

Wedi cyfnod o ddefnyddio parhaus, mae'r olew hidrolig (hydraulic) yn y system frecio yn cael ei lygru gan groniad araf o ddŵr, ac hefyd gall ddioddef newidiadau cemegol.

Dylanwada'r cyfuniad yma'n ddifrifol ar effeithiolrwydd y breciau. Er sicrhau diogelwch llwyr mae angen rhoi olew hidrolig newydd i'r system gyfan unwaith y flwyddyn. Cofiwch ddefnyddio olew cymeradwy.


MODURDY MENAI



FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI

Ffôn : Portdinorwic 882
Perchennog : J. Evans


# Pigion o'r Genedlaethol

## Y BABELL LÊN

Ni fydd y Babell Lên arferol yn ymddangos yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd fis Awst eleni. Oherwydd oedran a chyflwr yr adeilad ni fuasai wedi cyfarfod â gofynion y rheolau adeiladau a diogelwch, a byddai ei adnewyddu wedi bod yn rhy gostus.

Oherwydd hyn, bu'n rhaid i'r Eisteddfod chwilio am gartref dros dro i'r Adran Lenyddiaeth tan y gwireddir cynlluniau'r Cyngor am Babell Lên newydd.

Mewn ateb i gais am gymorth, mae Cyngor y Celfyddydau wedi rhoi grant o £3000 i'r Eisteddfod er mwyn sicrhau Pabell Lên dros dro yng Nghaerdydd.

## NEWYDDION DA

Newyddion da i'r sawl sy'n meddwl am logi fflat yn un o hosteli'r colegau ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd. Mae awdurdodau Coleg y Brifysgol, ar gais Pwyllgor Llety a Chroeso'r Eisteddfod, wedi gostwng pris y fflatiau i 5 yn Llys Talybont, o £70 i £55. Mae rhai o'r fflatiau hyn eisoes wedi eu gosod, a chynghorir y sawl sydd â diddordeb mewn llogi'r rhai sydd ar ôl i ysgrifennu ar unwaith at Bwyllgor Llety a Chroeso'r Eisteddfod, yn 24 Windsor Place, Caerdydd. Bydd prisoedd gweddill yr hostelau yn parhau yn £70 am fflatiau i bump, neu £5 y pen am wely a brecwast.

## Y CYNGERDD OPERATIG

Mae tocynnau yn awr ar werth yn Swyddfa'r Eisteddfod, 24 Windsor Place, Caerdydd ar gyfer y Cyngerdd Operatig sydd i'w gynnal ym Mhafiliwn yr Eisteddfod nos Sul, Awst 6ed. Yn y cyngerdd bydd rhai o sêr Cymreig y byd opera – Syr Geraint Evans, Kenneth Bowen, Helen Watts ac Anne Edwards – i gyd yn rhoi eu gwasanaeth yn rhad ac am ddim i'r eisteddfod. Yn y cyngerdd hefyd bydd Côr yr Eisteddfod a Cherddorfa Gymreig y BBC dan arweiniad Owain Arwel Hughes yn canu darnau allan o operâu poblogaidd.

Mae'r Prif Weinidog, y Gwir Anrhydeddus James Callaghan wedi derbyn y gwahoddiad i lywyddu'r cyngerdd – y tro cyntaf ers bron drigain mlynedd i Brifweinidog Prydain fod yn bresennol yn yr Eisteddfod.

## YR URDD YN PARCIO

Cangen Caerdydd o'r Urdd fydd yn gyfrifol am y Meysydd Parcio. Penderfynwyd rhoi'r cytundeb i'r Urdd, er bod rhai o'r cwmniau meysydd parcio mawr wedi danfon ceisiadau i mewn.

## CYFLWYNO CAERDYDD

Oherwydd bod cymaint o alw am docynnau i weld pasiant *Cyflwyno Caerdydd* gan blant ysgol Bryntaf yn ystod wythnos yr Eisteddfod penderfynwyd llwyfannu'r pasiant yn y Theatr Newydd yn lle Theatr y Sherman fel y bwriadwyd. Bydd hyn ar y nos Wener a'r nos Sadwrn. Bydd y ddrama "Nos Ystwyll" gan Gwmni'r Eisteddfod (cynhyrchydd R. Alun Evans) yn awr yn cael ei llwyfannu yn Theatr y Sherman ar y nos Wener a'r nos Sadwrn.

# TAN-Y-COED

**CROESO ADREF** – Croeso adref a dymuniadau gorau am adferiad buan i Mr. Arthur Vaughan Jones, 6 Tai Maesgerddi, a fu yn Ysbyty Môn ac Arfon. Da deall ei fod yn gwella.

**LLONGYFARCHIADAU** – i Manon Llwyd Evans, "Carwyn," ar ei llwyddiant yn yr Arholiad Piano Gradd Gyntaf o dan nawdd "Royal School of Music". Y mae Manon yn ferch i'r Dr. a Mrs. Eirwyn Evans. Ei hathrawes yw Miss Clarice Williams, Summer Hill, Llanberis.

**CYDYMDEIMLAD** – Y mae cydymdeimlad yr ardal â phlant, wyrion a brawd y diweddar Mrs. Ellen Thomas, Llythyrdy, Llanrug. Hyd flwyddyn yn ôl yr oedd Mrs. Thomas yn aelod yn Nhan-y-coed MC. Bu ei diweddar briod, Mr. Owen Thomas, yn flaenor ac organydd yn eglwys Tan-y-coed.


R.Hughes Jones a'r Mab

The Butchery
BRYN AFON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3188



Cig blasus – prisiau rhesymol

# DINORWIG

**DAWNS** – Llond bws o bobl ifainc yn mynd am Dal-y-bont, Aberystwyth i ddawnsio i gerddoriaeth y grŵp Edward H. Dafis. Dyna fu hanes ieuenctid y fro nos Sadwrn, Ebrill 15. Cawsant noson i'w chofio. Diolch i Emyr Llywelyn Griffith, Cynfi am drefnu'r bws ac i'r rhai ifainc am eu cefnogaeth.

**GŴYL BASG ADFER** – Llwyddiant diamheuol. Dyna fu hanes yr Ŵyl Basg eleni yn y Ganolfan leol. Enillwyr y darian yn Ymryson y Beirdd oedd tîm Llais Ogwan, gyda thîm Eco'r Wyddfa yn ail, a thîm Lleu yn drydydd. Diolch i aelodau y tri thîm am ymryson safonol dros ben. Yna ar nos Wener, Mawrth 31 yr oedd y Ganolfan dan ei sang yn mwynhau gwledd o Noson Lawen. Diolch i'r holl artistiaid am ein diddanu – Tecwyn Ifan, Glyn Williams, Pensarn, Parti Glynrhonwy, Adrian Evans, Mrs. Lona Lewis, Annette, Olwen a Marina Tŷ'r Ysgol ac Evan Bryn Roberts am arwain y noson. Heb unrhyw amheuaeth – noson i'w chofio oedd hon. Yna ar nos Sadwrn daeth Disgo'r Llais a'r grwp Madog II atom i ddiddanu'r ieuenctid. Tridiau o wledd ddiwylliannol, a'r gobaith yn awr yw y cynhelir Gŵyl Basg Ddiwylliannol debyg y flwyddyn nesaf. Diolch i bobl ifainc yr ardal am gynorthwyo gyda'r trefniadau; i'r merched am baratoi'r lluniaeth ac i bobl Dinorwig a'r ardaloedd cyfagos am eu cefnogaeth.

**LLYFR BRO "HIRAETH Y CHWARELWR"** – Gofid mawr i Mr. William Williams a Glyn Thomas yw nad yw'r ail argraffiad o'r llyfr wedi ymddangos hyd yn hyn. Problemau argraffu sy'n gyfrifol am hyn. Er hynny dylai'r ail argraffiad ymddangos yn ystod y mis nesaf. Oherwydd llwyddiant gwerthiant yr argraffiad cyntaf y mae Mr. William Williams a Glyn Thomas wedi penderfynu cyfrannu £15 o'r elw tuag at gronfa leol Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon.

**CANGEN ADFER DINORWIG** – Hyd yma mae'r gangen wedi casglu £65 tuag at gronfa leol Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon. Ar hyn o bryd mae'r aelodau yn gobeithio casglu mwy o arian trwy drefnu taith gerdded o gwmpas yr ardal. Bydd mwy o fanylion am hyn yn ystod yr wythnosau nesaf.

**LLONGYFARCHIADAU** – i Mr. a Mrs. Hugh Thomas, 1 Bro Elidir ar fod yn daid a nain. Ganwyd mab – Arwel Wyn – i'w merch Gwyneth. Dymuniadau gorau i'r plentyn bach a'i rieni Mr. a Mrs. Gwynedd Jones, 2 Marian Terrace, Deiniolen.

**DIOLCH** – Dymuna Mrs. Mary E. Jones, Ty'n y fawnog ddiolch i'w pherthnasau, cymdogion a'i chyfeillion am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd tra yn yr ysbyty, ac wedyn ar ei phen-blwydd. Diolch yn fawr iawn!

**Y GANOLFAN GYMDEITHASOL** – Nos Iau, Mai 4 yn y Ganolfan am 7pm cynhelir Cyfarfod Blynyddol Cymdeithas yr ardal. Dyma'r cyfarfod blynyddol cyntaf i'w gynnal, a chroesewir yn gynnes unrhyw un o'r ardalwyr i ddod yno.

**GENI** – Mawrth 19 eleni yn Ysbyty Maelor, Wrecsam, ganwyd mab, Gareth i Gwenfron ac Owen, gynt o fferm Cae Canol, Fachwen.

**CYDYMDEIMLO** – Cydymdeimlir gyda Mr a Mrs John D. Williams, Tyn fawnog Uchaf, ar farw brawd Mr. Williams yn Llanberis yn ddiweddar. Roedd y diweddar Mr. W.A.Williams yn enedigol o Ddinorwig.

**COFION** – Anfonir cofion at Miss Nora Williams, Padarn Stores a Mr. J. H. Williams, sydd mewn gwahanol ysbytai yn ceisio adferiad iechyd. Gwellhad buan fo iddynt ac i eraill yn yr ardal sy'n cwyno yn eu cartrefi.

**PARTI GLYNRHONWY** – Ar y rhaglen "Pawb at y Peth y Bo" (Radio Cymru) amser cinio dydd Mercher, bri9eo

Ebrill 19 clywsom ddetholiad o ganeuon gan y parti. Yn ychwanegol at hyn holwyd rhai o'r aelodau, ac yn eu plith Mrs. H. M. Roberts, Tŷ'r Ysgol sydd yn gyfrifol am gyfeithu rhai o'r caneuon i'r Gymraeg. Ei merch Annette sydd yn cyfeilio iddynt. Dalied y parti i'n diddanu am flynyddoedd eto.

# NANT PERIS

**COLLED** – Dechrau'r mis collasom ym marwolaeth Miss Mary Roberts, 4 Glanrafon un o'r hen ardalwyr. Bu Miss Roberts farw yn Ysbyty Dewi Sant Bangor yn 80 mlwydd oed. Cymeriad hoffus, diddorol a hynod o garedig oedd ein diweddar chwaer, yn enwedig wrth y plant, a chofir hi gan lawer ohonynt am ei haml afal ac oren, a'r arian a gaent ganddi at wibdaith yr Ysgol Sul. Bu'n aelod ffyddlon o Eglwys Peris Sant a gedy fwlch ar ei hol. Rhoddwyd ei gweddillion i orffwys ym mynwent y Nant ar Ebrill 8. Derbynied y teulu i gyd ein cydymdeimlad llwyraf â hwy yn eu profedigaeth.

**YN YR YSBYTY** – Yn Ysbyty Dewi Sant y mae Mrs. G. Edwards, Tyn Twll gynt y dyddiau yma. Deallwn y bydd Mrs. Edwards yn cael archwiliad yn Ysbyty Môn ac Arfon ddechrau'r wythnos ac anfonwn ein cofion a'n dymuniadau da iddi yn ei gwaeledd.

Ein dymuniadau gorau hefyd i Arwyn, mab Mr. a Mrs. Goronwy Roberts sydd yn mynd am driniaeth fechan i Ysbyty Môn ac Arfon. Gobeithiwn y bydd Arwyn adre'n ôl cyn i'r Eco ddod o'r wasg.

**MARW CYN-WEINIDOG** – Trist oedd clywed am farwolaeth sydyn y Parch. J. Alwyn Parry, M.A., B.D. yn ei gartref yn Llandysul. Bu Mr. Parry yn weinidog cymeradwy ar eglwys Rehoboth am 11 mlynedd, a threuliwyd nos Sul, Ebrill 16 yn gyfarfod coffa iddo. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs. Parry yn ei phrofedigaeth fawr.

**I FORIO** – Anfonwn ein dymuniadau gorau i Mr. Hefin Jones, Grove House ar ei fordaith gyntaf yn y LLynges Fasnach. Deallwn y bydd ei fordaith yn cymryd tua thri mis ac y bydd Hefin wedi bod yn Ne Affrica cyn y gwel Gymru eto. Pob bendith Hefin a phob llwyddiant i'r dyfodol.

**TRI LLOFRUDD** – Yn ystod y dyddiau diwethaf lladdwyd tri llwynog ar fferm Mr. Meirion Pritchard, Tŷ Isaf. Amser prysur yw hwn i amaethwyr y Nant – tymor bwrw ŵyn, ac mae'r cadno dichellgar yn lladdwr yn ystod oriau'r nos.

**ARHOLIAD SIROL** – Llongyfarchion i dri o blant Rehoboth am eu llwyddiant yn yr Arholiad Sirol. Enillodd Sharon Roberts wobr yn yr Arholiad i rai dan 9 oed, a Hefin Wyn Pritchard a David John Pritchard yn y dosbarth dan 14 oed. Bydd y tri yn cael eu gwobrwyo yn Henaduriaeth Mai ym Mangor. Llongyfarchion hefyd i'r athrawon a fu'n eu dysgu.

**BEDYDDIO** – Fore Sul, Ebrill 23 gweinyddwyd yr ordinhad o fedydd yng Nghapel Rehoboth gan y Parch. Richard Roberts, Bangor. Bedyddiwyd mab Mr a Mrs W. Jones, Bodffordd, Sir Fôn. Magwyd ei fam, Mrs. Mair S. Jones yn yr eglwys yma a bu'n aelod ffyddlon hyd nes iddi briodi ac ymgartrefu ym Môn. Dymunwn bob bendith i Aled a'i rieni i'r dyfodol.

**EISTEDDFOD** – Ar Ebrill 20 a 21 cynhaliwyd Eisteddfod y Plant Eglwysi Rhyddion Llanberis a'r Nant. Rhoddodd plant yr ardal gyfrif da ohonynt eu hunain yn ôl eu harfer. Dyma'r enillwyr: Canu dan 5– Alan Wyn Pritchard (Ail); Adrodd dan 5 – Iestyn Roberts (Ail); Canu dan 8 – Siân Elen Pritchard (Ail) ac Arwyn Roberts (3ydd); Adrodd dan 8 – Arwyn Roberts (Ail) a Siân Elen Pritchard (3ydd). Maes Llafur dan 5– Alan Wyn Pritchard a Iestyn Roberts yn Gydradd 1af. Dan 8– Arwyn Roberts a Siân Elen Pritchard yn Gydradd 1af. Dan 9 – Sharon Roberts (1af). Y cwbl yn cael marciau llawn am eu gwaith yn dysgu y Maes Llafar. Arlunio dan 8 – Arwyn Roberts (3ydd).

Maes Llafar dan 11 : Iwan Wyn Pritchard (1af); dan 13: David John Pritchard (1af). Gwniadwaith Safon 1 : Helen Mai Pritchard (1af), Siân Elen Pritchard (Aill); Safon 2: Sharon Roberts (3ydd), Safon 4: Jennifer Ellis (Ail); Dosbarth 1: Rita Jones (1af). Arlunio Dosbarth 2: David John Pritchard (3ydd). Canu'r Piano dan 12: Jennifer Ellis (Ail). Traethawd dan 12: Iwan Wyn Pritchard (Ail), Jennifer Ellis (3ydd), dan 14: David John Pritchard (Ail). Deuawd Piano: Rita Jones a Jennifer Ellis (3ydd). Unrhyw offeryn heblaw Piano: Iwan Wyn Pritchard (Ail), David John Pritchard (3ydd). Y beirniaid oedd Mr. W.G.Davies, Amlwch (Cerdd) a Mr. Aled Roberts, Y Felinheli (Adrodd).

**EBRILL 24**

Fe dybiais i na chanai'r gog
Eleni yn y Nant,
Ond heddiw canai gyda llog,
A llawen fydd y plant.

# UN O FIL I'R MILIWNYDD YN KUWAIT

Mae *chef* o Ddeiniolen wedi cael ei ddewis i fod yn gydymaith personol i un o gyfoethogion yr olew yn Kuwait.

Roedd dros fil wedi ymgeisio am y swydd meddai Mr. Gwylym Rowlands, 23 oed o 12 Pentre Helen, Deiniolen, ac ef a ddewiswyd i weini ar y miliwnydd. Bydd yn derbyn £100 yr wythnos o gyflog i ddechrau – arian poced yn unig fydd hyn, meddai Gwylym, sydd ar hyn o bryd yn *Chef* ers pum mlynedd yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor. Bydd yn byw ym mhalas ei gyflogwr heb orfod talu dim at ei gadw. Ei ddyletswydd gyntaf fydd mynd i Lundain i ddysgu sut i drin arfau a'i amddiffyn ei hun cyn ymfudo i'r Dwyrain Canol.

Erbyn i chwi ddarllen hwn bydd Gwylym Rowlands yn dilyn ei alwedigaeth yn y Dwyrain Canol ac mae dymuniadau gorau ardalwyr Deiniolen yn mynd gyda Gwylym yn ei swydd newydd.




YN EISIAU

**Hen Lyfrau Cymraeg**

Pob peth newydd ar gael fel arfer

LLYFRAU – RECORDIAU – CARDIAU

**SIOP Y PENTAN**

YR HEN FARCHNAD, STRYD Y PALAS
CAERNARFON (Ffôn: 5262)

# Llannerch Y Llenor

gan SELWYN GRIFFITH

**CROESO i'r Llannerch. Gair byr gen i am y tro gan fy mod yn rhoi'r Llannerch i'r merched am y mis hwn. Dyma lythyr diddorol a dderbyniais oddi wrth Mrs. Elizabeth Edwards o Dreffynnon (yn hanu o'r Waunfawr). 'Rwy'n hoffi eich dau bennill yn fawr. Brysiwch yma eto.**

*6 Saithaelwyd Park,*
*Carmel,*
*Treffynnon.*

*Annwyl Selwyn,*

*'Rydym yn derbyn Eco'r Wyddfa yn gyson, ac yn cael pleser mawr o'i ddarllen. 'Rwyf fi yn hanu o'r Waunfawr, ac wedi treulio blynyddoedd yn Llanrug. Mae fy mhriod o Lanrug yn cael ei adnabod fel "Cledwyn Rhos Ddu."*

*'Rwyf fi yn aelod o Ddosbarth Cynganeddion Treffynnon o dan ofal Mr. Medwyn Jones, ac yn cael mwynhad mawr yno. Ddechrau'r mis diwethaf yr oeddym yn cymryd rhan mewn Ymryson y Beirdd gyda dosbarthiadau Dinbych a Llangernyw.*

*Un o'r tasgau a gefais i oedd gwneud dau bennill pedair llinell yn cynnwys y geiriau hyn:*

"Aeth un i ffordd y mynydd,
A'r llall i ffordd y Glyn."

*Dyma fy ymgais i:*

Un diwrnod ym Mehefin
Aeth llanc a geneth dlos
Mewn cariad dros eu clustiau
I grwydro llwybrau'r rhos.

Ond O! daeth cweryl ffyrnig
I darfu'r hafddydd gwyn.
Aeth un i ffordd y mynydd,
A'r llall i ffordd y glyn.

*Ar y diwedd anogwyd fi gan Mr. Madog Hughes i anfon y penillion hyn i bapur. Tybed a ydynt yn deilwng o* Eco'r Wyddfa, *papur ein hen ardal?*

*Yr eiddoch yn gywir,*
*Elizabeth Edwards.*

Mae 'na hen frân wedi sibrwd wrtha' i mai o ardal y Waunfawr mae'r FRÂN WEN a anfonodd y penillion hyn i mi yn dod hefyd.

'Roedd tri o lanciau cryfion yn hwylio tri canŵ,
Ar ddŵr yr afon Gwyrfai, a dyma welson nhw:
Rhyw greadur mewn trybini mewn tonnau at ei ên.
Ac i helpu'r un anffodus, fe aeth yr hogia clên.

Hen ful oedd wedi suddo a'r mwd yn gwasgu'i fol
Wel rhaid oedd gwneuthur rhywbeth a hynny reit ddi-lol;
Pa sut i'w gael o allan o'r gaethgell drwstan hon?
Oedd broblem ddifrifolai dri llencyn hapus llon.

"Be wna'ni?" ofynnai Peter, ac meddai Dewi, "Dos
I chwilio am raff i'w halio rhag boddi yn y ffos."
Fe redodd Pete ac Ian, nerth traed trwy'r weirglodd draw
I geisio rhywbeth allent i dynnu'r mul o'r baw.

Fe arhosodd Dewi yno yn gwmni i'r mulun ffôl,
A'i ysgwyd beth, a'i gymell nes deuai'r lleill yn ôl.
Fe lwyddodd fesul tipyn i lacio'r carchar tyn
Ond y mul, heb nerth i symud, a'i lygaid mawr yn syn.

Cyn hir daeth Pete ac Ian, gan Pat fe gawsont raff.
A dyna lygio wedyn nes glanio'r mul yn saff,
Y creadur bach yn crynu, a'i gorff yn slwtsh i gyd,
Ei goesau wedi cyffio, 'rôl bod mewn twll cyhyd.

Yr hogia yn rhwbio a rhwbio nes c'nesu wnaeth ei waed,
Trwy aml hwb fe'i cafwyd i sadio ar ei draed,
Ac yna yn bur sydyn, fe ro'dd aruthrol nâd,
Mae'n siŵr mai diolch 'roedd o, i'r llanciau am ryddhad.

Y bechgyn druan hwythau, 'rôl ffagio yn y llaid,
Eu dillad wedi mwydo, wel brysio adre raid,
Ond rhywle ar yr afon, fe lympiodd un canŵ
A dyna drochfa ecstra, mewn dŵr a gawson nhw.

O oerni dŵr yr afon, oedd anioddefol bron
I'r lan y daeth y llanciau heb fyned dan y don
'Doedd hyn yn fawr o gamp i'r nofwyr chwim
Ac adre'n syth am ddillad sych a 'run yn achwyn dim.

Mae sôn am fygars creulon, a sôn am gnafon hy,
Ond dyma driawd hawddgar sy'n siampl dda i lu
Am achub mul Tai Isa, a'i gael o'r ffasiwn le
Fe haeddai'r tri gael medal gan RSPCA

*Y Frân Wen.*

I gloi dyma gerdd i Chwarel Llanberis (1975) a dderbyniais gan Mrs. M.G. Williams, Gwylfa, Bethel, (gynt o Bontrhythallt).

CHWAREL LLANBERIS (1975)

Nid oes sŵn yn dod o'r chwarel
Yn Llanbêr ym min y llyn,
Trodd y cerbyd olaf ådref
Gyda'i lwyth o weithwyr syn:
Ond mae hiraeth yn y galon
Am yr amser hapus gynt,
Ni cheir hiwmor y chwarelwyr,
Fe aeth hwnnw gyda'r gwynt.

Rhėd y trên bach unwaith eto
O Benllyn i'r Gilfach Ddu,
Ond mae pethau wedi newid
Trên bleserus ydyw hi;
Nid oes heddiw neb yn naddu
Nid yw'r olwyn fawr yn troi,
Nid oes mwyach neb yn saethu
Nid oes angen i neb ffoi.

Pa le mae yr hogia annwyl
Fu'n tramwyo'r llwybr main
I Awstralia, Abyssinia
Ac yn cysgu'n mysg y chwain?
Nid oes bellach neb yn cerdded
Llwybr llwynog fore a hwyr
Tawodd sŵn y 'clogs' a'r 'sgidia
Fe ddiflannodd rhain yn llwyr.

Ond, cyn hir bydd newid eto
Fe fydd twrw yn y fro,
Sŵn peiriannau a loriau,
Yn mynd a dyfod yn eu tro;
Fe ddaw'r Hydro i Ddinorwig
Fe ddefnyddir y ddau lyn
Ac o dan y chwarel fwyaf
Fe fydd twnnel gyda hyn.

*Mrs. M.C. Williams*

Diolch yn fawr iawn i chwi ferched, peidiwch â bod yn swil – galwch i mewn yn fuan eto. 'Rwy'n parchu'r 'Women's Lib' fel y gwelwch.

Hwyl fawr,
Selwyn

# Ysgol Tanycoed Penisarwaun

## HEDDIW .... DDOE ... ac ECHDOE



*Plant Ysgol Tanycoed heddiw trwy lygad camera Eco'r Wyddfa*



*Plant Ysgol Tanycoed tua'r flwyddyn 1928. Yr athrawes oedd Miss Ffoulkes, Llys (gynt). Gyda diolch i Mr. Henry Pritchard (Cae Coch, Brynrefail gynt, ond sy'n byw yng Nghaer erbyn hyn).*



*Plant Ysgol Tanycoed yn 1912. Tipyn o newid ers hynny! Sylwch ar y genethod yn eu 'sgidiau hoelion mawr. Y llun trwy garedigrwydd Miss Laura Jones.*

# WAUNFAWR

**EISTEDDFOD** — Cynhaliwyd Cyfarfod Cystadleuol Plant yr Ysgol Sul a'r Gobeithlu Capel Bethel M.C. nos Wener, Ebrill 14. Y beirniaid eleni oedd: Cerdd: Mrs. N. Lovatt, Brwynog, Llanrug; Adrodd a Llên: Mrs. M.W. Jones, Bethel; Ysgrythur: Mrs. Gweneirys Jones, Waunfawr; Arlunio: Mr. Fred Owen, Waunfawr. Y cyfeilydd oedd Miss Eirlys Jones. Arweinydd swyddogol y cyfarfod oedd Mrs. Phyllis Jones, Rhoslan ond yn anffodus oherwydd gwaeledd methodd â bod yn bresennol. Cymerwyd ei lle yn ddeheuig gan Mrs. Alma Jones a Mr. Eric Jones. Swyddogion y pwyllgor oedd: Llywydd: Mr. Robert Jones; Ysgrifennydd: Miss Marilyn Roberts; Ysgrifennydd Ariannol: Mrs. Pat Parry; Ysgrifennydd Cynorthwyol: Miss Gwenno Owen; Trysorydd: Miss B.M. Jones. Diolchwyd i bawb a fu'n ymwneud a'r eisteddfod mewn unrhyw fodd gan lywydd y pwyllgor, Mr. Rob. Jones. Gwnaeth y plant eu gwaith yn gampus. Dyma enwau'r buddugwyr: Dan 5: Unawd: 1. Telor, Dylan, Gwenan; 2. Awen; 3. Neil, Haf, Osian. Adrodd dan 5: 1. Osian, 2. Diane, Gwenan, 3. Neil. Unawd 5–7: 1. Karen 2. Wayne; Siân, 3. Elliw, 4. Nan Wyn. Adrodd 5–7: 1. Nan Wyn; 2. Karen; 3. Sandra; 4. Siân. Unawd 7–9: 1. Penny, Huw; 2. Siân, Adrian; 3. Iona, 4. Llion Adrodd 7–9: 1. Iona; 2. Penny; 3. Huw; 4. Adrian. Parti Unsain dan 12: 1. Parti'r Merched; 2. Parti Bodhyfryd; 3. Parti'r Bechgyn. Unawd 9–11: 1. Fiona; 2. Gwen; Côr Adrodd dan 12: 1. Parti Rhian; 2. Parti Huw; Unawd 11–13: Denise; Adrodd 9–11: 1. Rhian; Deuawd dan 16: 1. Einir a Siân; 2. Adrian a Wayne. Adrodd 11–13: 1. Denise; Unawd 13–16: 1. Einir; 2. Wendy; Adrodd 13–16: 1. Einir, 2. Wendy. Arholiad Ysgrythyrol dan 11 oed: 1. Denise; 2. Gwen; 3. Karen. Dan 14 oed: Tomos. Llunio Ysgrif dan 9 oed: 1. Llion; 2. Huw; 3. Iona; Penny; 4. Nan Wyn; 5. Deborah. Dan 12 oed: 1. Rhian; 2. Karen, Gwen, 3. Fiona, Marlene. Dan 16 oed: Nesta. Arlunio: Dan 6: 1. Gwenan, 2. Osian; 6–8: 1. Adrian, 2. Deborah, 3. Aeron. 8–10: 1. Alwyn, 2. Iona, 3. Marlene. 10–12: 1. Fiona; 2. Gwen, 3. Tony. 12–16: 1. Einir, 2. Fiona Johnson.

**CLWB GWYRFAI** — Mrs. Glenys Williams (gynt o Tŷ Ni) oedd y wraig wadd yng nghyfarfod y Clwb, brynhawn Iau, Ebrill 6. Rhoddodd sgwrs ddiddorol ar beth i'w wneud i gadw'n ffit. Diolchwyd iddi gan Mrs. Jones, Eilian Terrace. Gofalai Miss J. Jones, Bryn Tirion, Mrs. Idris Jones, Goleufryn a Mrs. M. Lloyd Jones, Bryn Tawel am y te.

**MERCHED Y WAWR** — Nos Iau, Mawrth 23 cafwyd dadl frwd ar "Nid oes le bellach i fudiadau sy'n gyfyngedig i un rhyw". 'Roedd pedwar gŵr wedi eu gwahodd i agor y ddadl: Mri. Iolo Huws-Roberts ac R. Gwynn Davies ar y naill ochr a'r Mri. Robert Jones a Norman Williams ar y llall. Llywyddwyd gan Mrs. Gillian Wyn. Enillydd y raffl oedd Mrs. Tegwen Jones, Rhos Alun a'r gwestwragedd oedd Mrs. Rhian Ellis, Mrs. Irene Roberts a Mrs. Beryl Jones.

**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL** — Y mae'r gwahanol gymdeithasau a mudiadau pentrefol yn dal ati i godi arian at yr eisteddfod; bu cyngerdd yn Festri Bethel, nos Wener, Ebrill 21, gan blant yr ysgol a doniau lleol a bydd derbyniadau un bwrdd yn Ffair Wanwyn Clwb Gwyrfai ar Fai 4 yn cael eu trosglwyddo i'r Gronfa Leol.

**CYFARFOD CYHOEDDUS** — Daeth y Cynghorydd Sir (Mr. Harry Owen) a'r Cynghorydd Dosbarth (Mr. Dafydd Iwan) i gyfarfod y trethdalwyr yn Neuadd yr Eglwys nos Fercher, Mawrth 29, a thrafodwyd yr angen am Gae Chwarae a Maes Parcio yng nghanol y pentref; penderfynwyd pwyso ar y Cynghorau Sir a Dosbarth i ddod i'r adwy. Penderfynwyd hefyd ofyn i'r Pwyllgor Addysg gario'r plant at yr ysgolion yn y dref.

**CYNGOR CYMDEITHAS** — Yn y cyngor fis Ebrill dewiswyd Mr. Iolo Huws-Roberts yn Gadeirydd a Mr. Evan T. Jones, Bontnewydd yn Isgadeirydd. Penderfynwyd anfon cwyn i MANWEB fod y cyflenwad trydan mewn rhan o'r pentref yn druenus o annigonol ar brydiau. Gohiriwyd ystyried maint cyfraniad y Cyngor i Gronfa Leol yr Eisteddfod Genedlaethol.

**SEFYDLIAD Y MERCHED** — Mewn gyrfa chwist a gynhaliwyd yn Neuadd yr Eglwys er budd y gangen leol y prif enillwyr oedd: 1. Mrs. Wyn Pettifor; 2. Mr. Eilian Wyn Jones; 3. Mrs. Edith Ellis. Bydd y gangen yn dathlu hanner canmlwyddiant ei sefydliad ar Fai 8.

**Y BLAID** — Enillwyr gwobrau mis Ebrill yn y Clwb Cant oedd: 1. Mrs. Jennifred Jones; 2. Mrs. Iona Williams 3. Mrs. M. Vaughan Jones. Bydd swper ym Mhlas Tan Dinas ar Fai 1, a threfnir y rhaglen gan Mr. Norman Williams.

**CROESO ADREF O'R YSBYTY** — i Mrs. Pat Jones, Rhiw; Mrs. M. Griffiths, Afallon; Mr. Francis Williams Bryn Golau, Miss J. Williams, Weirglodd Goch a Mrs. Judith Hughes, Tref Eilian. Dymunwn iddynt adferiad llwyr a buan.

**YN YR YSBYTY** — Boed i Mrs. J.M. Williams, 9 Aelybryn sydd yn yr ysbyty ym Mangor gael gwellhad llwyr.

**LLONGYFARCHIADAU** — i Mr. a Mrs. Aled Griffith, Gwelfor ar enedigaeth eu merch; i Miss Susan Dawson, Llys Morley a Mr. Aled Hughes o'r Felinheli ar eu dyweddiad; i Miss Helen Griffith, Ty'n 'Ronnen ar ennill ei thystysgrif S.R.N. yn Ysbyty Brenhinol Lerpwl. (Ein dymuniadau gorau iddi yn ei swydd newydd o staff nyrs yno.) i Miss Nia Wyn Pritchard, Min y Grug am gael ei dewis yn Frenhines Ysgolion Plwy Rheithorol Llanbeblig a Waunfawr; i Anthony Marston, Blaen-y-Nant a Gethin Williams, Bod Gwilym ar ennill tystysgrifau y "British Judo Association".

**"SURGERY DR. WILLIAMS"** — Rhag ofn na ŵyr ambell un, y mae'r Doctor wedi symud o Groes-y-Waun i'r hen Liverpool House. Croeso i Mr. a Mrs. Jones sydd wedi dod i fyw i'r Waun, Yr ydym yn adnabod Mrs. Jones ers blynyddoedd gan ei bod yn "receptionist" gymeradwy iawn.

**NOSON GOFFI** — Cynhelir Noson Goffi ac Arddangosfa o waith dosbarth arlunio y pentref nos Wener, Mai 5 yn Neuadd yr Eglwys.

### YMDDIHEURIAD

Yn y rhifyn diwethaf dangoswyd llun o blant Ysgol Dinorwig yn y flwyddyn 1911. 'Roedd un enw yn anghywir. Enw Gaynor Phillips ddylai fod yno. Hoffem ymddiheuro am y gwall.

# BRYN REFAIL

**FFAIR WANWYN** — Nos Wener, Mawrth 31 dan nawdd Clwb y Mamau, cynhaliwyd Ffair Wanwyn, gyda'r elw er budd Cronfa Leol y pentref i Eisteddfod Caernarfon. Agorwyd y noson gan Mrs. J. C. Williams, Llanrug. Gwnaed elw o £44 a diolchir i'r holl ardal am eu cefnogaeth.

**BEDYDD** — Yn oedfa bore Sul, Ebrill 16 yng Nghapel Brynrefail bedyddiwyd Jennifer Louise, merch fach Mr. a Mrs. M. Barry Chessworth, Gweinyddwyd gan y Parch. Stanley H. Williams, B.Sc., Cesarea.

**CRONFA EISTEDDFOD CAERNARFON** — Llawenydd yw datgan fod cyfanswm y Gronfa erbyn hyn wedi cyrraedd y swm o £235. Yn ystod y mis ychwanegwyd elw Raffl Mis Mawrth sef £53. Yr enillwyr oedd (1) Miss Violet Roberts, Deiniol House, Brynrefail –£5; (2) Mrs. M. Oliver, Mynydd Llandegai – £3; (3) Mrs. Joyce Williams, Caernarfon – £2. Gwerthfawrogwn ymdrech Clwb y Mamau gyda'u cyfraniad o £44 yn ogystal.

**AR Y RADIO** — Hyfrydwch oedd clywed llais un o ferched y fro, sef Kathleen (Pant y Buarth gynt) ar y rhaglen "Dewch am Dro" un bore Sadwrn. Mae hi a'i phriod wedi ymgartrefu yn Wolverhampton ers rhai blynyddoedd ac yn ofalwyr ymroddgar ar Saron, Eglwys y Presbyteriaid yn y dref honno.

**LLONGYFARCHIADAU** — i dri theulu yn y pentref ar enedigaeth tri mab bychan i'w haelwydydd. Croeso i Martin, Tros yr Afon; Darren, Bryn Hyfryd a Mathew, Bryn Parc i'n plith.

**CYDYMDEIMLO** — Mae cydymdeimlad yr ardal unwaith yn rhagor â theulu 11 Trem Eilian ym marwolaeth y diweddar Mr. Cliff Jones, gynt o 4 Rallt a fu farw ym Mhlas Pengwaith. Trist hefyd oedd i'r pentrefwyr ddeall am ymadawiad disymwth y ddiweddar Mrs. Helen Angell Jones, priod cynweinidog yr Eglwys ym Mrynrefail. Cydymdeimlwn â'r Parch. G. Angell Jones a'r teulu yn eu profedigaeth.

**CLWB PEDWAR UGAIN** — Enillwyr: 25.3.78: (1) Jennie Roberts, Glandwr; (2) J.Orwig Jones, Glandwr; (3) Peter Welsby, Tremallt. 1.4.78: (1) Glyn Owen, Tros yr Afon; (2) Phyllis Jones, Gors; (3) Islwyn Williams, Godre'r Coed. 8.4.78: (1) Euronwy Roberts, 8 Trem Eilian; (2) Rhian Jones, 3 Trem Eilian; (3) Elsie Roberts, 9 Trem Eilian. 15.4.78: (1) Len Parry, Gorffwysfa; (2) David Ellis, Gweledfa; (3) Arthur Jones, 5 Trem Eilian.

**O'R YSBYTY** — Da yw deall fod Carl Hasson, Bryn Myfyr wedi dychwelyd gartref o Ysbyty Môn ac Arfon ar ôl triniaeth lawfeddygol, ac wedi gwella'n foddhaol. Dymunwn adferiad buan i Sally Ellis, Gweledfa, sydd wedi cael damwain i'w braich.

**CLWB YR HENOED** — Cyfarfu'r Clwb nos Fawrth, Ebrill 4 yng nghwmni Mrs. Mary Vaughan Jones, Waunfawr. Cafwyd cwis darluniadol a fwynhawyd yn fawr iawn gan bawb. Rhoddwyd y te gan Mrs. Eifiona Jones a Mrs. Megan Jones. "Hen Atgofion" oedd testun sgwrs Mr. Cledwyn Williams, Llanrug yng nghyfarfyddiad y Clwb nos Fawrth, Ebrill 18. Cafwyd noson ddiddorol yn ei gwmni. Mrs. Jennie Hughes, Bryn Garth a Mrs. Jennie Williams, Bryn Melyn oedd yn gofalu am y lluniaeth.

# BETWS GARMON

**LLONGYFARCHIADAU** – i Mrs. Hughes (Arwel gynt) ar ei phen-blwydd yn 80 oed ar Mai 16.

Dathlodd ei merch Betsy a'i gŵr Robin eu priodas arian ar Mawrth 21.

**EISTEDDFOD CAERNARFON '79** – Cynhelir Noson Goffi a Byrddau Gwerthu yn Nhyn Weirglodd ar Fai 18, i ddechrau am 7.00.


STORFA

Mace

S.&E.

Jones

Llanrug

FFÔN: Caernarfon 2790

BLODAU A FFRWYTHAU YW EIN HARBENIGRWYDD

Mynnwch eich PAENT a PHAPUR PAPURO oddi wrth

E.WILSON HUGHES

84 Stryd Fawr

LLANBERIS

Ffôn: Llanberis 491

MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD

# Brwydr Iawndal yn parhau

**CYNHALIWYD cyfarfod yn Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen nos Wener, Ebrill 21, i drafod y cwestiwn o iawndal i chwarelwyr, a thrafod, yn enwedig, argymhellion Adroddiad Pearson. 'Roedd nifer dda yn bresennol.**

**Y Cadeirydd oedd Mr. John Evans, a'r siaradwyr oedd Mr. Dafydd Wigley, Aelod Seneddol Arfon, a Mr. Emyr Price, Bethel. 'Roedd Mr. Price yn annerch yn absenoldeb Mr. R. Skilicorn, oedd yn methu â bod yn y cyfarfod.**

Cafwyd adroddiad o hanes y frwydr i gael iawndal gan Mr. Dafydd Wigley. Dywedodd mai problem i bob plaid wleidyddol oedd hon.

Yn achos chwarelwyr Dinorwig yr anhawster oedd bod y cyflogwyr bellach yn fethdalwyr, ac felly, 'roedd yn amhosibl mynd â pherchnogion y chwarel i'r Llys er mwyn sicrhau'r iawndal.

Soniodd Mr. Wigley am y gweithwyr alcam, gweithwyr asbestos a'r ffermwyr – grwpiau oedd yn yr un sefyllfa â'r chwarelwyr.

Daeth Adroddiad Pearson allan yn 1978 yn lle 1976 fel y disgwylwyd. Cyn i'r Adroddiad ymddangos, 'roedd y prif-weinidog wedi derbyn yr egwyddor o iawndal i chwarelwyr.

Soniwyd am y cyfarfodydd oedd wedi cael eu cynnal eisoes yn Llanberis, Penygroes, a Blaenau Ffestiniog, ac am y rhai fydd yn cael eu trefnu yn Llanrug a Bethel cyn bo hir.

Penderfynwyd mai cam doeth oedd dewis pwyllgor o gynchwarelwyr o Ddinorwig, Deiniolen, Clwt-y-bont, Bryn-refail a Phenisarwaun. 'Roedd cael pwyllgorau lleol yn holl bwysig i sefydlu ymgyrch effeithiol a threfnu Deiseb. Penderfynwyd cael dirprwyaeth o Wynedd i'r Senedd dan arweiniad Dafydd Wigley, Dafydd Elis Thomas, Cledwyn Hughes a Wyn Roberts.

Rhaid oedd i'r ymgyrch gwblhau'r gwaith cyn mis Mai 1978, gan fod angen anfon sylwadau i'r Llywodraeth erbyn hyn. Mae disgwyl y bydd dadl yn y Senedd cyn diwedd yr haf.

Pwysleisiodd Mr. Wigley fod rhaid llwyddo'r tro yma, ac mai dyma'r amser delfrydol i sicrhau buddugoliaeth.

Cafwyd trafodaeth hynod o fuddiol a llu o gwestiynau o'r llawr.

Diolchodd y Cynghorydd Pat Larsen i'r siaradwyr a'r Cadeirydd am gyfarfod gwerthfawr.

# PLÂT Y BRIFWYL



Plât 'Royal Doulton' – arfbais a llythrennau mewn aur – wedi eu peintio â llaw. Pris: £15.

Dim mwy na 150 i'w gwneud.

Siec neu arian i'w anfon i:

"Cronfa Rigarug"
—Mr. G. Roberts,
Gregynog,
Llanrug

Am ychwaneg o wybodaeth, ymholer â'r ysgrifennydd:

Dafydd W. Thomas,
Bron y Nant, Llanrug.
Ffôn: C'fon 3515

Dylid nodi mai esiampl yw'r plât sydd yn y llun. Bydd yr enw Caernarfon wedi'i sillafu'n gywir ar y rhai fydd yn cael eu gwerthu.

# Cystadleuaeth y Mis



*Dyma lun arall o'r cyfeillion mynwesol sydd ar y dudalen flaen. Beth maent yn ddweud tybed? Dychmygwch, ac yna anfonwch eich cynnig at unrhyw un o'r golygyddion. Bydd gwobr o £1 am y frawddeg fwyaf ffraeth.*

# GORSAF OERI RACCA

**Nos Fercher, Ebrill 19, cynhaliwyd cyfarfod i drafod yr orsaf oeri arfaethedig yn Racca. Trefnwyd y cyfarfod gan y Cynghorydd Pat Larsen er mwyn i drigolion Racca drafod eu hofnau ynglŷn â maint yr orsaf, a'r twrw yn deillio ohoni.**

Yn bresennol yn y cyfarfod 'roedd swyddogion y Bwrdd Trydan, y Cynghorydd Sir, rhai aelodau o Gyngor Cymuned Llanddeiniolen, a Chynghorydd Dosbarth Deiniolen.

Yn ôl y cynlluniau, mae tair gorsaf i fod – yn Racca, Groeslon Tŷ Mawr, ac ar ochr Llyn Padarn.

Yn lle peilonau i gario'r ceblau o orsaf Dinorwig, byddant yn mynd o dan y ddaear. Oherwydd hyn mae angen oeri'r ceblau mewn "gorsaf oeri".

Trefnwyd i rai o'r ardalwyr, ynghyd â'r Cynghorydd Pat Larsen ymweld â gorsaf oeri ym Mhenbedw (Birkenhead) ar ddydd Sadwrn, Ebrill 22.

# Cysylltiad Bro

Dydd Sadwrn, Ebrill 8, yn Eglwys Fethodistaidd Leamington Spa priodwyd Mr. William G. Roberts, mab Mrs. Menna Roberts a'r diweddar Mr. Griffith Madoc Roberts, 1 Barneshall Avenue, Worcester, a Miss Susan Gay merch Mr. a Mrs. David Gay, Cedar Close, Leamington Spa. Mae William yn ŵyr i'r diweddar Mr. a Mrs. W. Hughes, Trigfa, Llanberis (gynt o Station House) ac i'r diweddar Mr. a Mrs. J.G. Roberts, Brynhyfryd, Cwm-y-glo, a nai i Mrs. Beti Evans, Caernarfon Y Parchedig Emyr Roberts, y Rhyl a'r diweddar Idris Roberts (o staff y BBC ym Mangor).

Bydd Mr. a Mrs. William G. Roberts, y ddau yn raddedigion, yn cartrefu ar hyn o bryd yn Luxembourg lle maent yn gweithio.


**E.W.&M.WILLIAMS**



Y BECWS
DEINIOLEN

FFÔN : LLANBERIS 232

BARA FFRES – TEISENNAU BLASUS !

*(Rydym yn arbenigo mewn teisennau Priodas)*

***

DOSBARTHWN BOB LLUN, MERCHER A GWENER
YN NEINIOLEN, DINORWIG, FACHWEN



AM DRIP CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO ...............

*Eric Morris*



**Bwsiau Arfon**
**LLANRUG**

FFÔN
WAUNFAWR 254

# Dyddiadur y Mis

MAI 1, Llun: LLANBERIS: Gyrfa Chwist dan nawdd y St. John's yn y Ganolfan am 7.30. WAUNFAWR: cinio Cangen Plaid Cymru ym Mhlas Tan Dinas.
2 Mawrth: LLANBERIS: Undeb y Mamau.
3, Mercher: LLANBERIS: Clwb y Mamau yn y Ganolfan am 7.30 pryd y ceir noson o Bingo.
4, Iau: BETHEL: Pwyllgor Lleol Eisteddfod Caernarfon '79. WAUNFAWR: Sefydliad y Merched. Ffair Wanwyn Clwb Gwyrfai. DINORWIG: Cyfarfod Blynyddol Cymdeithas Ganolfan. LLANRUG: Cymdeithas Chwiorydd Capel Mawr.
5, Gwener: PENISARWAUN: Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30. WAUNFAWR: Noson Goffi ac Arddangosfa Arlunio yn Neuadd yr Eglwys. DEINIOLEN: Noson Goffi gyda Stondinau amrywiol yn yr ysgol. Er budd Apel Gwaun Gynfi.
7, Sul: WAUNFAWR: Cymanfa M.C. Dosbarth Caernarfon yng Nghapel Croes y Waun. DEINIOLEN: Cymanfa Ysgolion Eglwysi Presbyteraidd Dosbarth Deiniolen yng Nghapel Brynrefail dan arweiniad Mrs. G.A. Williams. LLANBERIS: Cymanfa Capeli Presbyteraidd Dosbarth Llanberis yng Nghapel Coch.
8, Llun: LLANBERIS: Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Pel-droed yn y Ganolfan am 7.30. DEINIOLEN: Cyfarfod blynyddol y seindorf, yn y Bandroom am 7.00.
9, Mawrth: LLANRUG: Merched y Wawr. CWM-Y-GLO: Undeb y Mamau.
10, Mercher: LLANBERIS: Bingo dan nawdd Cangen Plaid Lafur yn y Ganolfan am 7.30.
11, Iau: LLANBERIS: (Plaid Cymru) – y Gangen yn cyfarfod yn y Ganolfan am 7.30. Pwyllgor Carnifal yn yr Ysgol am 7.30.
12, Gwener: LLANBERIS: Bingo dan nawdd Pwyllgor Cronfa'r Eisteddfod yn y Ganolfan am 7.30. Clwb yr Henoed. PENISARWAUN: Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30.
14–19: Wythnos Cymorth Cristnogol.
14, Sul: WAUNFAWR: Cyfarfod Pregethu Capeli Bethania a Chroes y Waun. Y pregethwr fydd y Parch. Isaac Jones Abergele.
15, Llun: LLANBERIS: Gyrfa Chwist dan nawdd y St. John's yn y Ganolfan am 7.30.
16, Mawrth: WAUNFAWR: Y Cyngor Cymdeithas.
17, Mercher: LLANBERIS: Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Clwb y Mamau. CWM-Y-GLO: Merched y Wawr.
18, Iau: DYDD EWYLLYS DA.
BETWS GARMON: Cynhelir Noson Goffi a Byrddau Gwerthu yn Nhy'n Weirglodd am 7 o'r gloch. Yr elw at Gronfa Leol Eisteddfod '79. WAUNFAWR: Clwb Gwyrfai.
19, Gwener: LLANBERIS: Ffair Wanwyn yn Ysgol Dolbadarn. Yr elw at Gronfa Eisteddfod '79. PENISARWAUN: Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30.
22, Llun: DEINIOLEN: Merched y Wawr – sgwrs gan Mr. Dafydd Orwig. Noson Goffi yn Ysgol Gwaun Gynfi am 7.00 o'r gloch. Yr elw at y ddyled yng Nghapel Tabernacl. LLANBERIS: Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Peldroed yn y Ganolfan am 7.30.
23, Mawrth: BETHEL: Clwb yr Heulwen.
24, Mercher: DEINIOLEN: Cyfarfod Cyhoeddus i drafod sefydlu Eisteddfod Bentref, yn yr ysgol am 7 o'r gloch LLANBERIS: Bingo dan nawdd Cangen Plaid Lafur yn y Ganolfan am 7.30. PENISARWAUN: Helfa Drysor Pwyllgor Lleol Cronfa'r Eisteddfod Genedlaethol.
25, Iau: WAUNFAWR: Merched y Wawr yn croesawu Cangen Benllech i'w plith. LLANBERIS: Sefydliad y Merched.
26, Gwener: LLANBERIS: Clwb yr Henoed. WAUNFAWR: Rali Geir. PENISARWAUN: Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30.
29, Llun: LLANBERIS: Gyrfa Chwist yn y ganolfan am 7.30.
31, Mercher: WAUNFAWR: Gwibdaith flynyddol Clwb Gwyrfai i Bwllheli.

### DYDDIADAU I'W COFIO

Mehefin 3... Taith Gerdded er budd Clwb Pêl-droed Llanrug.
Mehefin 10... Taith Gerdded Noddedig dan nawdd Pwyllgor Carnifal, Llanberis.
Mehefin 10... Gwibdaith flynyddol Clwb Eryri.
Mehefin 14... Helfa Drysor Merched y Wawr Bethel.
Mehefin 18–24... Wythnos Garnifal Llanrug.
Gorffennaf 7–15... Wythnos Garnifal Llanberis.
Gorffennaf 16–22... Wythnos Garnifal Cwm-y-glo.

### RAS PEN YR WYDDFA

**Cofiwch amdani ar Orffennaf 15. Manylion oddi wrth Mr. Ken Jones, 10 Glanrafon, Nant Peris. Y ceisiadau i law erbyn Mehefin 15.**


## AR WERTH.

**Siwt drowser ar gyfer yr haf. Maint 16. Lliw – Llwyd. Fel newydd.**
**Siwt drowser ar gyfer y gaeaf. Maint 16. Lliw – Porffor. Wedi ei gwisgo ond unwaith.**
**Rhif ffôn – Llanberis 532 – unrhyw adeg o'r dydd.**


# Deiniolen


## NEWYDDION HWYR

### CLWB IEUENCTID

**PENCAMWYR GWYNEDD** – Dyna deitl tîm pêl-droed (5 yr ochr) genethod y clwb. Buont yn llwyddiannus ym Mangor yn nechrau'r mis yn trechu timoedd o Goris 1–0, Bethesda 7–0, a Chaergybi 5–1. Aelodau'r tîm oedd, Glenda Parry, Carys Williams, Marion Williams, Joyce Owen a Carolyn Davies Y dyddiad pwysig nesaf yn y dyddiadur fydd Gorffennaf 8 – dyna ddyddiad y gystadleuaeth cenedlaethol a Deiniolen fydd yn cynrychioli Gwynedd yn Aberystwyth.

**NEWYDDION Y SEINDORF** – Bydd Cyfarfod Blynyddol y Seindorf yn cael ei gynnal ar Fai 8 yn y Bandroom am 7.00 p.m. Croeso cynnes i bawb.

# Croesair 24



**AR DRAWS:**
1. Odlau – diystyr weithiau (7)
5. Math o flawd ceirch wedi ei ferwi (5)
8. Stori â gwers ynddi (5)
9. Rhif y nef berffeithiaf (7)
10. Math o ddrama (9)
12. Actiwr moel ei ben (3)
13. Mae cysgod hwn yn un o nofelau Islwyn Ffowc Ellis (6)
14. Does dim llawer yma (6)
17. Ardal wedi ei threiglo (3)
18. Canmol ar ôl llwyddiant (9)
20. Difywyd, neu efallai'n ddim ond dioglyd (7)
21. Llymeitian (5)
23. Deuddeg (5)
24. Un sy'n adrodd chwedleuon (7)

**I LAWR:**
1. Promenâd (5)
2. Carreg werthfawr (3)
3. Lle i feithrin a magu creaduriaid (7)
4. O'r un sŵn a sain (6)
5. Cyfarfod i adrodd profiadau ac ati (5)
6. Sbîd (9)
7. Gŵyl mis Rhagfyr (7)
11. Dichellgar neu gelwyddog (9)
13. Cytundeb rhwng pobl neu fargen (7)
15. Cyfnewidiad mawr – mewn Llywodraeth yn aml a hwnnw drwy drais (7)
16. Anghymwys (6)
18. Brethyn, fel yr hwn a ddodir ar fwrdd (5)
19. Perthynas fenywaidd (5)
22. Os na, hyd nes (3)

**Cyfrifir y llythrennau canlynol fel UN llythyren: ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th**

ENW.................................................................

CYFEIRIAD......................................................

........................................................................

........................................................................

### ATEBION CROESAIR RHIF 23

**AR DRAWS**: 1. Gwelltog; 5. Mapio; 8. Addoli; 9. Trwynol; 10. Gwasanaeth; 12. Mwg; 13. Moelni; 14. Acen od; 17. Nod; 18. Cysylltiad; 20. Edrychwr; 21. Sgets; 23. Tanio; 24. Darlledu.

**I LAWR**: 1. Gwasg; 2. Eco; 3. Trigain; 4. Gatiau; 5. Mawrth; 6. Pont Menai; 7. Oblegid; 11. Aberdaron; 13. Mynwent; 15. Callestr; 16. Ysbryd; 18. Cuchio; 19. Dysgu; 22. Ebe.

### ENILLYDD CROESAIR RHIF 23

Leonard A. Hughes,
'Arosfa',
Groeslon,
Caernarfon.

Gwobr o £1 i'r ateb cywir cyntaf a dynnir wedi i'r holl gynigion ddod i law.

Anfoner y cynigion fel arfer i:
Myrddin Owen,
32, Stryd Fawr,
Llanberis.

# CHWARAEON

## Y Cwpan Iau— o'r diwedd

**'DOES dim angen ymddiheuro, 'rwy'n siŵr, am neilltuo'r dudalen ôl y mis hwn i bêl-droed, gan ganolbwyntio ar gamp Llanrug yn ennill Cwpan Iau Gogledd Cymru am y tro cyntaf yn eu hanes. Mae ymddiheuriad yn dilyn er hynny, gan i mi gynnwys yn y rhifyn diwethaf y gosodiad eu bod wedi cyrraedd y rownd derfynol am y tro cyntaf. Fe'm cywirwyd gan aml un yn ystod y mis, ac aeth y Parch. Herbert Thomas, Llannor, un a fu'n cefnogi pêl-droed yr ardal dros gyfnod hir, ati i'm rhoi yn fy lle mewn llythyr sy'n un hynod o ddiddorol. Mae cof anhygoel (neu nodiadau?) ganddo ac 'rwy'n siŵr y maddau i mi am gynnwys rhan o'i lythyr, gan ddiolch o galon iddo am yr ymateb.**

*Annwyl Gyfaill,*

*Yn y rhifyn cyfredol o'r* Eco *dywedir fod Llanrug United wedi cyrraedd rownd derfynol Cwpan Iau Gogledd Cymru am y tro cyntaf. Nid ydyw hyn yn gywir gan fod y Clwb wedi gwneud hynny hefyd ym mlwyddyn gyntaf eu bodolaeth, yn 1923. Ffurfiwyd y Clwb yn 1922 pan unwyd Rhythallt Comrades a Glasgoed ac ymuno â'r Gynghrair. Cyn hynny 'roedd y ddau Glwb wedi bod yn chwarae yng Nghynghrair Eryri a Deiniolen (Ebenezer y pryd hynny) ac ail dîm Llanberis, a elwid yn Llanberis United, hefyd yn chwarae ynddi. Bu tymor cyntaf Llanrug yn un llwyddiannus iawn, gan gyrraedd rownd derfynol y Cwpan Iau, ond yn anffodus colli yn y ffeinal yn erbyn Oakenholt St. David's (Fflint) ym Mae Colwyn o bedair gôl i un; Harri Bach yn sgorio i Lanrug. Y tîm y diwrnod hwnnw oedd: Stiward Dick Roberts, Bob Roberts, W.E. Williams, Llew Evans, Ifor Williams, Hugh P. Williams, A. Parry, J. Williams W.E. Jones a Harri Williams.* **(Oes rhywun â llun o'r tîm? Byddai'n ddiddorol ei weld — Gol.).** *Yr unig ddau sydd yn fyw, hyd y gwn i, ydyw Bob Roberts a W.E. Williams (Coch Bach Brynrefail).*

*Cof da gennyf hefyd am y ddwy gêm gyn-derfynol yn yr Oval yn erbyn y Coleg Normal. 'Roedd dau o hogia Llanberis yn nhîm y Normal, Ceris Owen (y Capten) a John Roberts (Halford Hill heddiw) yn y gôl. Ni sgoriwyd yn y gêm gyntaf — methodd Llew Evans gic gosb — ond yn yr ail gêm sgoriodd un o gefnwyr y Normal drwy ei gôl ei hun! ... 'Roedd cannoedd o bobl yn yr Oval yn edrych ar y gemau hyn, a band yn arwain y timau i'r cae ac yn ôl i'r Eagles, lle byddent yn newid.*

*Pob hwyl i Lanrug yn y gêm derfynol; maent wedi bod yn Glwb da ar hyd y blynyddoedd ac mae eu pwyllgor gweithgar yn haeddu llwyddiant. Llongyfarchiadau iddynt am y gwaith da y maent wedi ei wneud i sicrhau cae, ac i ddod â fo i safon mor dda.*

*Mae gan Llanberis hefyd record dda yn y Cwpan yma — wedi ei hennill bum gwaith — yn 1935 a 36 (tîm Wil Parry) a theirgwaith yn olynol o 1964 i 1966, gan golli deirgwaith mewn rowndiau cyn-derfynol.*

Wel, Llanrug pia' hi eleni, ac estynnir llongyfarchiadau cynhesaf yr holl ardal iddynt. Mae'n ddiddorol sylwi na fu ond dau dîm Cynghrair Arfon yn llwyddiannus ynddi er ei dechrau yn 1895, Llanberis fel y crybwyllwyd eisoes, a Llechid Celts yn 1966–67, ac wedyn yn 1968–69. Llanrug yw'r trydydd, a'u camp yn glod, nid yn unig i'r ardal ond hefyd i Gynghrair Arfon.

## PÊL-DROED

### LLANBERIS

**Un ymddiheurad arall — fod Llanbêr wedi eu cyfyngu i un gornel fach, ond 'rwy'n siŵr y byddant yn cyfaddef mai Llanrug yw cewri'r mis. Bu'n gyfnod da iddynt hwythau hefyd, heb golli'r un pwynt yng ngemau'r Gynghrair ac ennill ei ffordd i rownd gyn-derfynol y Cwpan Alves.**

Uchafbwynt y mis oedd y gêm gyfartal yn Llanberis yn erbyn tîm cyntaf tre Caernarfon yng Nghwpan Gyfryngol Gogledd Cymru — gêm galed, gyflym a Llanberis yn amlwg heb boeni fod eu gwrthwynebwyr yn 'byw' mewn cynghrair uwch, a'u tîm yn costio oddeutu £150 yr wythnos i'w roi ar y cae! Efallai'n wir mai stori wahanol fydd hi ar yr Oval yn yr ail chwarae, ond lwc yn unig a'u cadwodd yn y gystadleuaeth. Ym munud ola'r gêm, profodd cic gosb Dic Parry o du allan i'r blwch cosb yn rhy boeth i gôl-geidwad y cofis ddelio'n gyffyrddus â hi; gollyngodd y bêl ar linell y gôl, ac er i flaenwyr Llanberis frwydro i'w gwthio drosodd, allan am gic gornel yr aeth hi.

**Ebrill 22**

**Llanberis 3 Porthmadog 1**

Dau bwynt am berfformiad gwael — a'r cyd- chwarae perffaith a welwyd yn erbyn Caernarfon wedi eu gadael. 'Doedd dim sgôr ar hanner amser ond yn yr ail hanner rhoddodd Iwan Evans hwy ar y blaen. Gwilym Williams sgoriodd y ddwy arall — ei bedwerydd pâr yn ystod y mis!

Mae tabl y Gynghrair yn dal i adlewyrchu rhagoriaeth timau'r ardal. Deallaf mai gêm ola'r tymor fydd yr un rhwng Llanrug a Llanberis, gêm fydd â'i chanlyniad yn dyngedfenol os pery'r ddau dîm i lwyddo hyd at hynny.

| | Ch | E | Cf | Colli | OB | YN |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llanberis | 25 | 21 | 3 | 1 | 96 | 26 |
| | | | | | | Pwyntiau = 45 |
| Llanrug | 22 | 19 | 2 | 1 | 80 | 20 |
| | | | | | | Pwyntiau = 40 |

Beth am hon fel record? Mae tîm Cynghrair Gwyrfai (Dos. 2) Llanberis wedi sgorio 60 gôl yn eu chwe gêm olaf, a dim ond 3 yn eu herbyn!

Llanberis sydd ar ben y gynghrair, a Llanrug yn ail, ond a gemau ganddynt mewn llaw — ble gwelais i stori debyg o'r blaen d'wedwch?



*Rhai o gefnogwyr ieuengaf Llanrug yn yr Oval ddydd Sadwrn. Cyfeirio at Howyn Jones, y rheolwr mae'r faner a 'Big H' arni — Barry Pitts ydi 'Beanz' — sgoriwr amlaf y Clwb y tymor yma.*

## Llandudno Amateurs 1 Llanrug 2

"Byddin goch Howyn", meddai baneri cefnogwyr Llanrug, ac yn wir, chwarae eithaf coch a welwyd ganddynt yn yr ugain munud cyntaf, gadael i Landudno fynd un gôl ar y blaen. Camgymeriad mawr ar ran Llandudno oedd hyn, oherwydd dyna'n union a wnaeth Abergele a Teigrod Porthaethwy mewn rowndiau blaenorol — a cholli fu eu hanes! Erbyn diwedd yr hanner cyntaf, 'roedd y fyddin goch wedi ffroeni arogl brwydr, a'r cadlywydd Howyn Jones wedi dechrau poenydio rhes gefn Llandudno wrth saethu cic gosb a chic gosb un ar ôl y llall at eu hôlfyddin. O'r diwedd, cafwyd bwlch yn y mur, ac o linell hanner y cae, aeth cic Howyn dros ben cefnwyr Llandudno, ac wrth i Peter Roberts a golgeidwad Llandudno ymgiprys am y bêl, disgynnodd yn daclus i gefn y rhwyd — a dyna'r sgôr yn gyfartal. Gôl gyntaf Howyn ers gêm gyntaf y tymor — ond gôl gwerth disgwyl amdani.

Rhwng ymosodiadau Llanrug, cafodd Nigel Hardwindge gyfle i ddangos ei fedr fel golgeidwad — a gwneud gwyrthiau bron wrth arbed ambell i gic rhag mynd i gefn y rhwyd — a hynny'n aml oddi wrth amddiffynwyr Llanrug!

Dechreuodd yr ail hanner a'r sgôr yn gyfartal, ac unwaith eto, y ddau dîm yn ofni gwneud camgymeriad, ac o ganlyniad cafwyd chwarae blêr gan y ddwy ochr. Ond fel yr âi'r gêm ymlaen, 'roedd Llanrug yn cryfhau, ac wedi i Hefin Jones a Dic Owen newid esgyll, 'roedd cefnwyr Llandudno yn cael trafferthion mawr. 'Roedd cadfridogion canol y cae — Peter Roberts a Gwynfor Owen yn dangos mwy o awdurdod, a'r cadfridog arall, Len Padmore a gwaed y frwydr yn llifo o archoll yn ei ben yn ymwthio fwy i'r blaen i helpu Barry Pitts.

Er hynny, parhau'n fregus braidd a wnâi'r amddiffynfa, a daeth Nigel Hardwidge i'w hachub unwaith yn rhagor. Yn sicr, 'roedd yn un o arwyr y dydd i Lanrug.

**"Deng munud cyn yr olaf bib**
**A'r dyrfa'n ferw mawr**
**A'r sgôr yn sefyll rhyngom ni**
**Yn wastad eto nawr."**

Ar hynny, dyna'r bêl i Hefin, ac yn lle gwibio a throelli am y lein fel arfer, rhoes dro sydyn tua chanol y cae a chroesi'r bêl â'i droed chwith. Yno'n disgwyl 'roedd pen Dic Owen, a chyfarfu'n berffaith â'r bêl i'w tharo tuhwnt i ddwylo golgeidwad Llandudno — a dyna'r cwpan i Lanrug.




*Ken Jones, Capten y tîm yn derbyn y Cwpan.*

Tîm Llanrug oedd: Nigel Hardwidge, Dafydd Horman, Ken Jones, Alan Vincent Owen, Howyn Jones, Peter Roberts, Gwynfor Owen, Len Padmore, Dic Owen, Barrie Pitts a Hefin Jones. 12ed dyn: Alan Price.

Heb anghofio Hugh Hughes a Gary Vaughan Owen a fu yn chwarae mewn rowndiau blaenorol.

Erbyn i'r rhifyn o'r Eco gael ei gyhoeddi, bydd Llanrug wedi chwarae rownd gyn-derfynol Cwpan Cyfryngol Gogledd Cymru, a hei lwc y bydd cwpannau eraill i'w hennill cyn diwedd y tymor.



*Y Capte a'r Rheolwr, Ken a Howyn yn dangos y wobr i'r holl fyd.*